

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 474 • Chwefror 2017 • 50c



Lôn Las Ogwen yn cyrraedd Tregarth

Yn dilyn sicrhau cyllid gan Gronfa Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, a Chynghorau Cymuned yr ardal, mae'r gwaith o ymestyn y Lôn Las

am 800 metr dros Afon Ogwen a thrwy'r twnel tuag at Tregarth ar y gweill. Mae'r gwaith yn cynnwys goleuo'r twnel hir a gosod grisiau ychwanegol ar y draphont

dros yr afon er mwyn diogelu defnyddwyr. Golyga hyn y bydd y llwybr, fydd yn addas ar gyfer cerddwyr a beicwyr, yn rhedeg o Fangor hyd at Fwthyn Idwal.

Llwyddiant ysgolion y Dyffryn

Dymunwn longyfarch holl ysgolion y dyffryn ar eu llwyddiant eto eleni – pob un ohonynt wedi'u gosod yn y categorïau uchaf gan Lywodraeth Cymru! Mae ein diolch yn fawr i'r athrawon, cymorthyddion a'r disgyblion am eu gwaith caled yn sicrhau cynnal y safonau uchel yma.

Pwysig: Ymgynghoriad

Mae cynghorau Gwynedd a Môn wedi gweithio gyda'i gilydd i greu'r Cynllun Datblygu Lleol, sy'n dangos pa diroedd fydd ar gael yn y pymtheng mlynedd nesaf ar gyfer tai, ffatrioedd, hamdden ac yn y blaen. Mae'r cynlluniau i'w gweld yn y llyfrgelloedd, y swyddfa polisi cynllunio ym Mangor, neu ar y we (gwynedd.llyw.cymru/ldpl).

Dylid anfon sylwadau cyn Mawrth y 9fed at Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, LL57 1DT, neu drwy gyfrwng y we.

Yn Eisiau: Trefnydd

I ddosbarthu, gwerthu, a chasglu'r arian am galendrau **Llais Ogwan**.

Cysyllter â Gareth Llwyd (Ysgrifennydd), 3 Sgwâr Buddug, Bethesda, LL57 3AH, Ffôn: 01248 601 415 neu garethllwyd197@btinternet.com

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn**
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk
- Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com
- Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Walter a Menai Williams.

Y golygydd ym mis Mawrth fydd
Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW.
01248 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 1 Mawrth
os gwelwch yn dda.
Plygu **nosIau, 16 Mawrth**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda

SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor

Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon

Palas Print
Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas

Garej Beran

Dyddiadur y Dyffryn

Chwefror
21 Balchder Bro Ogwen. Cyfarfod
Blynnyddol. Cefnfaes am 7.30.
25 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 - 12.00.
27 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 - 4.00.
28 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru.
Caffi Coed y Brenin am 7.00.

Mawrth
01 Merched y Wawr Tregarth. Swper
Gwyl Ddewi.
02 Sefydliad y Merched Carneddi.
Dathlu 80fed pen-blwydd. Cefnfaes
am 7.00
02 Cangen Plaid Lafur Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
04 Bore Coffi Ysgol Sul Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
05 Gorymdaith Gŵyl Ddewi. Cychwyn
o'r maes parcio ger y Feddygfa am
1.30
05 Cyngerdd Gŵyl Ddewi. Neuadd
Ogwen am 3.00.
09 Cymdeithas Jerusalem. Gwenan
Gibbard. Festri am 7.00.
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 - 1.30.
11 Bore Coffi Cylch Meithrin Cefnfaes.
Canolfan Cefnfaes. 10.00 - 12.00
13 Cymd. Hanes D. Ogwen. Ieuan Wyn
(Darlith Goffa Rh. Rowlands.)
Jerusalem am 7.00.
16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
18 Bore Coffi Plaid Lafur. Cefnfaes.
10.00 - 12.00

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Chwefror
£30.00 (125) Ann Williams, Stryd
y Ffynnon, Gerlan
£20.00 (138) Ogwenna Doyle,
Adwy'r Nant, Bethesda.
£10.00 (73) Tom Gwyn Jones,
Craigle, Rhiwlas.
£5.00 (5) Megan W. Phillips,
Rhes Gordon, Bethesda.

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Rhoddion i'r Llais

- £5.00 Mair Taylor, Maes y Garnedd, Bethesda.
- £20.00 Di-enw, Rhos y Coed, Bethesda
- £30.00 Er cof annwyl am fam arbennig, sef Mrs. Margaret Jones, 22 Bron Bethel, Rachub, oddi wrth Glenys, Buddug a Bernard.
- £30.00 David Nicholas, Lôn Brewis, Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn.
- £10.00 Er cof annwyl am Brian Parry, 45 Abercaseg, Bethesda, oddi wrth Joan a'r teulu.
- £14.50 Huw Griffith, Llanfairpwll.
- £10.00 Er cof annwyl am Olly Cross, Adwy'r Nant, Bethesda.
- 10.00 Andre Lomozik, Rhos y Coed, Bethesda.
- £250.50 Rhoddion er cof am Richard Cyril Ward, Bodfaio, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda.
- £9.00 Deri a Megan Tomos, Sychnant, Llanllechid.
- £20.00 Er cof annwyl am Mrs. Eirlys Roberts, Cilfodan, a fu farw ar 10 Chwefror 2016, oddi wrth ei phriod, Vic, a'r teulu.

Diolch yn fawr

ANNWYL OLYGYDD

Byddwn yn ddiolchgar iawn petai modd i chi ddod a'r cais isod i sylw eich darllenwyr. Os ydych am fwy o wybodaeth, neu sgwrs, mae croeso i chi gysylltu a mi drwy'r cyfeiriad e-bost hwn neu'r cyfeiriad e-bost isod.

Mae Cwmni Theatr Bara Caws yn ddeugain oed!

I ddathlu'r garreg filltir hynod hon, a dathlu cyfraniad y cwmni i fyd y theatr yng Nghymru, mae Gwasg Carreg Gwalch yn bwriadu cyhoeddi cyfrol llawn hanes, atgofion a straeon am weithgarwch y cwmni dros y blynyddoedd.

Oes ganddoch chi unrhyw atgofion o gynrychiadau Bara Caws? Fuoach chi'n gysylltiedig gyda'r cwmni - yn weithiwr, trefnydd neu'n aelod o gynulleidfa? Yn morio chwerthin neu'n wfftio at eu sioeau clybiau? Beth bynnag fo'ch cysylltiad, hoffwn glywed gennych. Os ydych am gyfrannu, gyrrwch e-bost draw at llyfrbaracaws@gmail.com gyda'ch atgofion a'ch lluniau. Rhannwch nhw, da chi, byddwn yn ddiolchgar iawn o'u cael.

Y dyddiad cau ar gyfer cyfraniadau yw Chwefror 28.

Gyda diolch,
Llŷr Titus

Bydd ein cynhyrchiad diweddaraf, sef 'Yfory' yn Pontio, Bangor ar Fawrth yr 8fed a'r 9fed.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU ☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Gweithgareddau Codi Arian i Gronfa'r Eglwys

Noson Bingo Ionawr 24

Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant Noson Bingo yr eglwys yn Neuadd Talgai Llandygai. Codwyd £175 i Gronfa Atgyweiro Sant Tegai a braf oedd gweld nifer fawr o gefnogwyr, hen a newydd, yn mwynhau'r achlysur. Diolch fel arfer i Pauline a Raymond am alw'r rhifau.

Raffl Santes Dwynwen yr eglwys

Tynnwyd y raffl flynyddol yma ar ôl y gwasanaeth boreol ar ddydd Mercher Ionawr 25. Enillydd y brif wobr, sef potel o champagne, oedd Mrs Ethel Davies. Da iawn hi ! Codwyd dros £228 a diolch yn arbennig i Miss Nerys Jones am drefnu'r gwerthiant.

Yn ein gweddïau

Dymuniadau gorau i sawl aelod o'r eglwys sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty neu o dan ofal meddyg. Cyfarchion arbennig i Mrs Hefina Chamberlain, Mrs Ethel Davies, Mrs Enid Gardner, Mrs Joy Radcliffe a'r Parchedig J. Aelwyn Roberts, cyn ficer Eglwys Llandygai.

Rhagrybudd Gwasanaeth Dydd Mercher Lludw

Cynhelir gwasanaeth Dydd Mercher Lludw ar Fawrth 1af am 10.15 yn yr eglwys. Croeso i bawb i gydnabod ddechrau'r Garawys.

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y. b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Croeso i Gethin Huw Williams, mab Gerallt ac Angharad, Tregarth. Mae Gethin wedi symud i 27, Braichmelyn. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Chwefror 19: Parchg. John Lewis Jones.
Chwefror 26: Parchg. Harri Parri.
Mawrth 05: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes.
Mawrth 12: Parchg. O. G. Williams.
Mawrth 19: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWYR CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r
gloch a hanner dydd



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Hen nain a hen daid

Llongyfarchiadau mawr i Megan a Len Williams, Ffordd Gerlan, ar ddod yn hen nain a hen daid unwaith eto. Ganed Alaw Madlen i’w wyr, Bleddyn, a’i bartner, Angharad, Cilfodan. Mae Alaw yn chwaer fach i Twm, Sion, ac Osian. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu. Yn y llun gwelir Alaw Madlen ym mreichiau ei hen nain, Megan Williams. Mae’n rhyfeddol meddwl fod bwlch o 97 mlynedd a dau ddiwrnod rhwng y ddwy.



Dathlu pen-blwydd

Llongyfarchiadau mawr i Megan Williams, Ffordd Gerlan, ar ddatlu ei phenblwydd yn 97 oed ar 28 o Ionawr. Rydym i gyd yn gyrru ein cofion cynnes atoch chi a’ch priod, Len, yn fawr iawn, ac yn dymuno’r gorau ichi.

Gradd uwch

Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau mawr i Rhiannon O’Marah, Gwernydd, ar ennill gradd MA. Da iawn, Rhiannon, rydym yn dymuno pob llwyddiant i ti yn y dyfodol.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i David a Rhian, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth merch fach, Fflur Moriarty Owen. Rydym, hefyd, yn llongyfarch Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn nain unwaith eto, ac i Nance Owen, Rhes William, Bethesda, ar ddod yn hen nain eto. Mae pawb o’r teulu wedi gwirioni ar yr eneth fach.

Brysiwch wella

Rydym yn gyrru ein cofion at Karen Briggs,

Stryd y Ffynnon, gan ddymuno gwellhad buan iddi yn dilyn damwain fechan yn y tŷ. Pob dymuniad da iti, Karen.

O’r Gerlan i bendraw’r byd

Fel rhan o daith i hyrwyddo eu cryno ddisg ddiweddaraf, Anian, mae Lisa Jên a’i gŵr, Martin, Gwernydd, a’u grwp gbach yn mynd ar daith. Am bedwar diwrnod yn Chwefror byddant yn cynnal gigiau mewn pedwar lleoliad yn Lloegr. Yna, ym Mawrth, byddant yn croesi’r byd, ac yn cynnal gigiau yn Adelaide, Awstralia, ac yn New Plymouth, Seland Newydd. Rydan ni’n dymuno pob hwyl iddynt, ac yn falch o weld y bydd geiriau Cymraeg y Gerlan yn cael eu canu yr ochr draw i’r blaned.

Bali Wali Honco

Rydym yn llongyfarch pawb o’r pentref a fu’n ymwneud gyda phantomeim llwyddiannus Cwmni Drama’r Llechen Las, a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Neuadd Ogwen. Llongyfarchiadau arbennig i blant a phobl ifanc y pentref a fu yn cymryd rhan. Roedd canmoliaeth mawr i’r cynhyrchiad gan bawb a fu’n ei weld. Da iawn chi!

Damwain

Anfonwn ein cofion at Awen Roberts, merch David a Sian a gafodd ei hanafu mewn damwain car yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn gwella Awen.

Cymdogion da

Yn y gwynt mawr ddechrau’r mis, chwythwyd tŷ haul pren Jane Jones, Gwernydd, oddi ar ei seiliau. Roedd rhai o’i chymdogion yno yn syth i gynnig cymorth i roi’r tŷ pren yn ei ôl ar ei seiliau. Hoffai Jane Jones ddiolch i’r cymdogion caredig am eu cymorth, ac mae’n falch iawn o ddweud fod Gerlan yn parhau yn gymdogaeth o gyfeillion ac o garedigrwydd. Yn y llun gwelir rhai o’r cymdogion, Peter Brown, Martin Hoyland, Lisa Jên, a Liwsi Mo, yn mynd i’r afael a’r tŷ pren, sy’n gorwedd ar ei dalcen, oherwydd nerth y gwynt. Diolch o galon i chi am eich cymorth.



Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

MEHEFIN 10fed 2017

Cystadlaethau Gwaith Llaw ar gyfer y Sioe

Gwobrau 1af £3.00, 2il £2.00, 3ydd £1.00
Dosbarth

57. Eitem wedi ei wau a llaw (edafedd dwbl)
58. Layette i fabi cyn- amserol
59. Eitem neu ddilledyn wedi ei wau a llaw (unrhyw edafedd)
60. Unrhyw eitem wedi ei grosio
61. Eitem yn dangos clytwaith
62. Eitem yn dangos pwyth croes (agored)
63. Cerdyn cyfarch (unrhyw gyfrwng)
64. Ffedog
65. Pengwyn (unrhyw gyfrwng)
66. Unrhyw eitem wedi ei wnio
67. Broetsh (unrhyw gyfrwng)
68. Clustog (unrhyw gyfrwng)
69. Unrhyw eitem yn defnyddio defnyddiau wedi’u hailgylchu
70. Unrhyw eitem o grefft o’ch dewis heb fod yn y rhaglen uchod

Os am fwy o wybodaeth neu raglen lawn cysylltwch gyda Gwyneth Morris.
Rhif ffôn: 01248 600596

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFELOWENS

TEMPLE MORRIS A’I FAD

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Gair gan y Glas

Croeso i adroddiad cyntaf tîm Plismona Dyffryn Ogwen. Dyma’r adroddiad cyntaf o’r hyn yr ydym yn gobeithio fydd yn golofn eithaf cyson. Dylem ddechrau drwy gyflwyno ein hunain. Ar hyn o bryd mae dau Swyddog Cymunedol (PCSO) wedi eu lleoli yn y swyddfa ym Methesda, sef Gareth Davies, sydd ar ei bumed flwyddyn yn y dyffryn, ac Iwan Owen sydd ar ei drydydd.

Mae’n braf adrodd fod troseddu yn Nyffryn Ogwen wedi bod yn isel yn ystod y deuddeng mis diwethaf, gydag ychydig iawn o droseddau difrifol yn cael eu hadrodd i ni. Yn anffodus, dros yr haf, cawsom ymweliad gan droseddwr a oedd yn teithio ar hyd a lled Cymru yn torri i mewn i dai. Torrodd i mewn i bedwar tŷ yn yr ardal, ond yn ffodus, cafodd ei ddal yn gyflym iawn yn y Dyffryn. O ganlyniad, cafodd ei ddefnyddio i chwe mlynedd o garchar. Ac eithrio hyn, ‘roedd troseddau o fwrghleriaeth a lladradau yn isel iawn. ‘Rydym yn ymwybodol bod presenoldeb cyffuriau yn y gymuned yn peri llawer o bryder. Fodd bynnag, ‘rydym wedi cael llwyddiant sylweddol drwy weithredu gwarantau sydd wedi arwain at erlyn nifer o bobl. Byddwn yn parhau i weithredu ar hyn.

Ymddengys mai’r prif droseddau yn y Dyffryn yw trais yn y cartref ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae trais yn yr cartref yn creu cryn bryder i ni, ac ‘rydym yn awyddus i ‘aelodau’r gymuned rannu gwybodaeth â’r Heddlu os ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau o’r fath.

Rydym wedi cael rhai anawsterau

gydag ymddygiad rhai o’n pobl ifanc ac mae’n broblem sydd yn peri gofid I lawer o drigolion lleol. O ganlyniad, ‘rydym wedi canolbwyntio ar wahanol leoliadau o fewn ein cymuned ble ‘roedd problemau, ac mae hynny wedi gwella’r sefyllfa yn y lleoliadau yna. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar, a cheisio rhwystro ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Efallai y bydd o ddiddordeb i chi ein bod yn y deuddeng mis diwethaf wedi erlyn nifer o unigolion yn y llys am eu hymddygiad gwrth-gymdeithasol, ac o ganlyniad, wedi derbyn gorchmynion ymddygiad. ‘Rydym hefyd wedi darparu tystiolaeth i’r awdurdod lleol sydd wedi arwain at ail-leoli unigolion allan o’r Dyffryn.

Ar nodyn mwy dymunol, cafodd ein prosiect cymunedol “Darganfod Dyffryn Ogwen” ei wobryd fel Prosiect Cymunedol y Flwyddyn gan yr Uchel Siryf y llynedd. Cwblhawyd y prosiect mewn partneriaeth gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Neuadd Ogwen. Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld y ffilm a grëwyd gan y bobl ifanc o’r enw ‘Atgofion Ogwen’. Os ydych yn glwb neu gymdeithas, a chyda diddordeb mewn gweld yr ffilm yna cyswlltwch â Gareth neu Iwan.

Ein cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf yw parhau i gadw troseddu ac ymddygiad gwrth- gymdeithasol yn isel gyda phwyslais penodol ar atal troseddu amaethyddol.

Hwyl am y tro,
Gareth ac Iwan

Ffair arbed ynni

Mae Ynni Ogwen a chlwb ynni Cyd Ynni – Ynni Lleol yn cynnal Ffair Arbed Ynni ar y cyd. Cynhelir y ffair fore Sadwrn, 25 Chwefror 2017 yn Neuadd Ogwen, a bydd amrywiaeth o stondinau gan gwmnïau ac elusennau yn cynnig syniadau ar sut i arbed ynni yn y cartref neu yn y gymuned.

Os hoffech chi arddangos neu hysbysebu gwaith neu wasanaeth a all helpu pobl i arbed ynni, mae gennym le o hyd ar gyfer stondinau, a hefyd bydd bwrdd hysbysebu ar gyfer taflenni a hysbysebion.

Bydd y cyngor arbed ynni yn y ffair yn amrywio o’r newidiadau mân sy’n costio dim i newidiadau mwy a all olygu

cynhyrchu eich trydan eich hunain neu ynysu wal neu do.

Cofiwch nodi’r dyddiad yn eich dyddiadur! Yn sicr bydd y Neuadd yn fwrllwm o syniadau ac awgrymiadau hen a newydd am arbed ynni ym mywyd bob dydd. Efallai y bydd gennych chi eich syniad eich hun, neu rywbeth sydd wedi gweithio’n dda i chi, i’w ychwanegu at y bwrdd hel syniadau ar y diwrnod?

Oriau y ffair fydd oriau marchnad arferol, sef 9.30 tan tua 1.30.

Os hoffech drafod yr uchod, mae croeso i chi alw heibio swyddfa Partneriaeth Ogwen neu e-bostio cydynni@energylocal.co.uk neu ffonio 01248 602131.

Pentir

Anwen Thomas, Min yr Afon,
11 Rhydygroes, Pentir ☎ 01248 355686

Eglwys St Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Ionawr 2017

1af.	Rhif 50	Eirwen Williams Rhiwlas
2ail.	Rhif 45	Myra Jones Waun Pentir
3ydd.	Rhif 41	Phyllis Jones Cyffordd Llandudno

Swper Gŵyl Ddewi

Bydd Swper i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant ar nos Sadwrn Mawrth 4 am 6.30yh yn y Ganolfan Glasinfryn. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â’r dathliad.

Dymuniadau

Anfonwn ein cofion cynnes at yr aelodau sy’n wael eu iechyd, sef Pam Jones, Bill Perry, Mai Williams a Vick Bradley. Estynnwn ein cofion tuag at eu teuluoedd hefyd.

Gwasanaethau’r Sul

Mae’r gwasanaethau gyd am 9.45yb

19.2.17	Cymun Bendigaidd
26.2.17	Boreol Weddi
5.3.17	Cymun Pawb
12.3.17	Boreol Weddi
19.3.17	Cymun Bendigaidd
26.3.17	Boreol Weddi – Sul y Fam

Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau.

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig
Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Yr Eglwys Unedig

Yn dilyn bwrlwm y Nadolig, mae'r Ysgol Sul a Chlwb yr Ifanc wedi ail-ddechrau, ac yn brysur gyda'u gweithgareddau. Braf yw gweld y plant yn dod i'r Capel gyda gwên ac yn llawn brwdfrydedd! Mae'r baned ar ôl oedfaon y bore yn llwyddiant, ac yn rhoi cyfle i'r aelodau weld y plant a chael sgwrs â hwy. Hyfryd oedd cael cwmni Sioned Williams dros yr Ŵyl – mae Sioned yn dilyn cwrs ar gyfer mynd i'r weinidogaeth.

Cofion

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn methu â dod i'r oedfaon, a dymunwn y gorau iddynt, yn eu mysg Y Parchedig John Owen, sydd wedi symud i Blas Ogwen.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Vera Menai Griffith, Maes y Garnedd, yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

Cyfarfod Gweddi

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi ddechrau'r flwyddyn o dan ofal Alwenna, gyda Mair a Luned yn cymryd rhan, a Minnie'n cyfeilio. Diolch iddynt am eu gwasanaeth.

Y Gymdeithas

Nos Iau, Ionawr 12, croesawyd pawb gan ein Llywydd, Joe. Ein gŵr gwadd oedd Mr Alun Pritchard o Ynys Môn, a bu'n sôn am ei daith ddiweddar i Kenya, i helpu codi ac adnewyddu tai, darparu cyflenwad dŵr glân drwy agor ffynhonnau, a llawer o waith arall. Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol, a diolchodd Joe yn gynnes iawn i Mr Pritchard am ei gyflwyniad, a hefyd i'r merched a oedd yn gyfrifol am y baned.

Plygain

Nos Sul, Ionawr 22, cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain o dan arweiniad Ceri. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan Jean. Daeth pedwar parti ynghyd i gymryd rhan: y Parti Merched, Y Von Trapps (cyfuniad o ddau deulu o'r eglwys), Grŵp Ysgol Dyffryn Ogwen o dan ofal Mr Hefin Evans, ac aelodau o Gôr y Penrhyn. Cafwyd noson fendithiol, gyda phaned ar y diwedd, a gwnaed casgliad o £40.00 tuag at y Capel. Diolch i Menai am gyfeilio.

Y Clwb Celf

Mae'r Clwb wedi ail-ddechrau, ac mae

croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.

Llenwi'r Cwpan

Cofiwch am y baned bob bore Iau rhwng 10 a 12 – mae croeso cynnes a sgwrs ddifyr yn eich disgwyl!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Buddug Roberts- un o selogion Clwb yr Ifanc – ar ennill gwobr am ei gwasanaeth ym myd gymnasteg. Mae Buddug yn rhoi o'i hamser bob nos Wener i helpu gymnastegwyr ifainc ym Mhlas Ffrancon. Da iawn ti – dalier ati!

Cyhoeddiadau'r Sul

Chwefror
19 Y Parchedig Cledwyn Williams
26 Y Parchedig Ddr. Elwyn Richards (5)

Mawrth

5 Y Parchedig Megan Williams
12 Trefniant Mewnol
19 Y Parchedig Marcus Robinson (5)
26 Miss Nerys Jackson

Eglwys Crist Glanogwen

Mis Chwefror:
Bob bore Mercher am 10.30: Gwasanaeth Cymun a choffi wedyn.
Bob Sul: Cymun Bendigaid am 11.00

Mis Mawrth: yr un fath, ond cofiwch bod 1 Mawrth yn Ddydd Mercher Lludw. Cynhelir gwasanaeth penodol ar gyfer y diwrnod arbennig hwn.

Croeso cynnes i bawb i ymuno a ni.
Mae'r gynulleidfa yn anfon eu cofion at Albert Humphreys, clochydd ffyddlon yr Eglwys am 35 mlynedd, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am wythnosau lawer.

Eileen Evans

Dymuna Dafydd Meurig, Morfudd Wyn, a'r holl deulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch i ffrindiau, cymdogion, a pherthnasau am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth, ac i Huw J Hughes am arwain y gwasanaeth angladdol. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Hosbis yn y Cartref, ac i Gareth Williams am y trefniadau.

Pen-blwydd Arbennig

Yn ystod mis Ionawr bu Derek Griffiths, Rhos y Coed, yn dathlu pen-blwydd arbennig yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda, gydag adloniant gan Hogia'r Bonc. Casglwyd £420.00 ar y noson, a throsglwyddwyd yr arian i Ambiwllans Awyr Cymru. Hoffai Derek ddiolch i bawb am eu caredigrwydd wrth gefnogi'r elusen yma.

Gair o Ddiolch

Dymuna Mrs. Edwina Rowlands, 42 Abercaseg, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion, am eu cyfarchion a'u dymuniadau da tra bu yn yr ysbyty yn Lerpwl a Bangor yn derbyn triniaeth.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. Mrs. Gareth Hughes, Michael, Emma a Chris, Bryn Caseg, yn eu profedigaeth o golli mam a nain yn Bontnewydd ar ddechrau 2017.

Cydymdeimlwn hefyd, â Mrs. Muriel Williams a'r teulu, Garneddwen, yn eu profedigaeth o golli Mrs. Megan Hughes, chwaer a modryb.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Marie a Rich (Hodson), 4 Llawr y Nant, ar enedigaeth merch fach ar 24 Rhagfyr, sef Myla Celyn, chwaer fach i Tara a Lexi. Wyres i Mrs. Margaret Swift, Maes Coetmor, a gor-wyres i Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd. Llongyfarchiadau i chwi i gyd fel teulu ar achlysur hapus.

Diolch

Dymuna Marie a Rich, Llawr y Nant, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth Myla.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at y rhai a fu mewn ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith: Mrs. Beryl Williams, Pen y Bryn; Mr. Albert Humphreys, Stryd Cefnfaes; Mrs. Irene Hughes, Glan Ffrydlas; Mrs. Rene Parry, Maes y Garnedd; Mr. J. O. Roberts, Pen y Bryn a Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg.

Marw

Mrs. Vera Menai Griffiths
Ar 5 Ionawr, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Mrs. Vera Menai Griffiths (Vera Casey), Maes y Garnedd, yn 90 oed. Mam a mam yng nghyfraith annwyl i Gary a Susan, Brian a Liz, Calvin ac Ethel, Pat a Brian, a Keith a Kerstin. Nain a hen nain hoffus a chwaer annwyl i Gwilym.
Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 12 Ionawr, gyda gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem ac Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ddr. Huw John Hughes, gyda Mrs. Helen Wyn Williams wrth yr organ. Claddwyd ei llwch ym Mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Gair o ddiolch

Dymuna teulu a ffrindiau'r ddiweddar Mrs. Vera Menai Griffiths ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau, yn dilyn eu profedigaeth.

Mr. Richard Cyril Ward

Yn sydyn yn ei gartref ar 17 Ionawr, bu farw Mr. Richard Cyril Ward, Bodfaio, Lôn Newydd Coetmor, yn 81 oed. Priod annwyl y diweddar Mrs. Elizabeth Ward a ffrind annwyl iawn i Eluned a'r teulu.

Roedd yn aelod selog o Eglwys Sant Llechid, ac wedyn Eglwys Crist Glanogwen hyd nes i'w iechyd dorri. Roedd wrth ei fodd yn derbyn y Llais bob mis.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 25 Ionawr, gyda'r Parchg. Ddr. Huw John Hughes yn gwasanaethu.

Cydymdeimlwn â chwi, Eluned, a'r teulu i gyd o golli Cyril.

Gair o Ddiolch

Hoffai teulu a ffrindiau y diweddar Richard Cyril Ward, Lôn Newydd Coetmor, ddiolch i bawb a fynychodd y gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ar 25 Ionawr. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd, ac am y cyfraniadau er cof amdano tuag at achos oedd yn agos iawn at ei galon, sef papur bro Llais Ogwan. Diolch i'r Cyfarwyddwr Angladdau, Mr. Gareth Williams, Bethesda, am yr holl drefniadau, ac i'r Parchg. Ddr. Huw John Hughes am arwain y gwasanaeth.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Pwyllgor fore Llun, 20 Chwefror am 11.00 o'r gloch.

Gwaeledd

Bu Mrs Margaret Hughes, Ffrancon View, Coed y Parc yn wael yn yr ysbyty yn ystod mis Ionawr. Dymunwn y gorau iddi a gobeithio ei bod yn cryfhau ar ol dychwelyd adref.

Efan Elidir Doyle

Mae Mrs Ogwena Doyle, 30 Adwy'r Nant bellach yn hen nain, ar ôl geni Efan Elidir, mab bychan Jini Hogan o Lanberis a Ioan Doyle, y dringwr byd enwog o Fethesda. Hyfryd yw cyhoeddi bod Efan a aned ar yr 22ain o Dachwedd 2016 yn dod yn ei flaen yn dda ac mae'r teulu i gyd â meddwl y byd ohono.

Hefyd edrychwn ymlaen i gael gweld a chlywed mwy am gampau Ioan yn y byd dringo clogwyni a mynyddoedd serthaf y byd. Mwynhaodd pawb y rhaglenni ar S4C amdano'n dringo yn Eryri ac yng Nghaliffornia ymhlith lleoedd eraill.

Jac yn y bocs

Dyna deitl casgliad o ddramâu byrion a gyhoeddwyd ddiwedd mis Rhagfyr diwethaf gan Emyr Edwards. Gwahoddwyd Bob Roberts, Cadeirydd Cwmni Drama Eglwys y Crwys, i fwrw golwg dros y gyfrol.

Y gŵyn fwyaf y mae dyn yn ei chlywed gan gwmnïau drama amatur y dyddiau yma yw'r diffyg yn y nifer o ddramâu, hir a byr, sydd ar gael iddynt eu llwyfannu. Mwy na pheidio maent yn dibynnu ar gyfieithiadau neu addasiadau o ddramâu mewn ieithoedd eraill. Rwy'n siwr bod hyn yn rhannol gyfrifol am y dirywiad yn y nifer o gwmnïau drama amatur sydd yn bodoli yma yng Nghymru a hynny, wedyn, yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o wyliau drama sydd yn cael eu cynnal.


Mae lle i ddiolch, felly, am gynnyrch cyson y dramodydd o Gaerdydd, Emyr Edwards. Mae'n awdur toreithiog, wedi cyhoeddi sawl drama, ynghyd â llyfrau ar gynhyrchu a llwyfannu dramâu. Mae hefyd wedi dod yn fuddugol yn eisteddfodau cenedlaethol Tŷ Ddewi, Casnewydd a Chaerdydd. Mae hefyd wedi ysgrifennu nifer o sioeau cerdd ac ef oedd sylfaenydd a chyfarwyddwr Cwmni Theatr yr Urdd rhwng 1973 a 1988.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae Emyr wedi cyhoeddi sawl cyfrol o ddramâu byrion, megis *Y Fodrwy*, *Adolff* a *Lloeren*, cyfanswm o ddwy ar bymtheg o ddramâu ar gyfer cwmnïau amatur, colegau ac ysgolion.

A nawr dyma gyfrol arall o'i waith, sef *Jac yn y Bocs* a phedair o ddramâu byrion eraill – dramâu gyda deialog sy'n rhedeg yn llyfn ac yn hawdd iawn i'w llwyfannu; delfrydol i gwmnïau amatur.

Mae *Jac yn y Bocs* yn cynnwys elfen o ddychan wrth ymdrîn â sefyllfa o banig ymysg llwydraethau lleol ac awdurdodau swyddogol eraill. Er bod pedwar ar ddeg o gymeriadau ynddi hawdd iawn fyddai dyblu i fyny ar actorion ac, fel mae'r teitl yn ei awgrymu, dim ond bocs sydd ei angen ar y llwyfan! Yn yr ail ddrama, *Colli Gafael*, mae yna ymdriniaeth sensitif iawn â sut y mae'r clefyd dementia yn gallu effeithio'n wrthdrawiadol ar berthnasau – sefyllfa y mae sawl un ohonom, rwy'n siwr, yn ymwybodol ohoni. Drama yw hon wedi ei hanelu, mi dybiwn, at actorion mwy profiadol.

Mae'r drydedd ddrama, *Uffern*, wedi ei hanelu atoch chi y bobl dechnegol.



Mae'n sôn fel y mae'r dechnoleg fodern, megis yr ei-ffôn, yn rhwystro cyfathrebu ymhlith pobl. Rwy'n siwr y bydd y deialog *staccato* sydd yma yn taro deuddeg gyda sawl un ohonoch. Dyma ddrama arall hawdd i'w llwyfannu gan mai dim ond bwrdd a thair cadair sydd eu hangen ar y llwyfan.

Darlun yw'r ddrama *O'r Dom i'r Llaid* o'r modd y twyllir caethweision i gyffesu. Mae'r ddrama wedi ei lleoli mewn carchar gyda phedwar cymeriad iddi – tri gŵr a gwraig, sef caethwas, caethferch, swyddog carchar a milwr. Y ddrama olaf yn y gyfrol yw *Bwlis*, sy'n ymdrîn â sut y gall addysg ddylanwadu'n negyddol, ac yn drasig, ar syniadau a gweithgareddau'r ifanc. Fe'i lleolwyd mewn ysgol ac, o reidrwydd, cast ifanc sydd iddi ar wahân i athro a phrifathro, naw o actorion mewn nifer.

Dyma gyfrol o ddramau byrion sydd yn cyfleu sefyllfaoedd cyfoes a chyffrous, ac wedi ei hanelu, yng ngeiriau'r awdur "at gwmnïau drama amatur, ysgolion a cholegau". Mae'n gyfrol sy'n wirioneddol yn llenwi bwlch yn llenyddiaeth Cymru. Diolch Emyr.

Os nad yw'r gyfrol yma ar werth yn eich siop lyfrau leol, gallwch ei harchebu yn uniongyrchol oddi wrth yr awdur naill ar y ffôn: 02920 565122; ar e-bost: edwards-catherine@sky.com neu drwy ysgrifennu ato yn 9, Petherton Mews, Llantrisant Road, Llandaf, Caerdydd, CF5 2SJ. Pris £7.

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel
Trefn Gwasanaethau
Chwefror
19 Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam
26 Gweinidog
Mawrth
5 Gweinidog (Cymun)
12 Parchg Dafydd Coetmor Williams
19 Miss Nerys Jackson

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Ysgol Sul am 10.30yb. Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30yh
Te Bach yn y festri, pnawn Llun, 27 Chwefror, 2.30 hyd at 4.00. Croeso cynnes i bawb.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith felt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Ar ddydd Sul, 8 Ionawr,cynhaliwyd oedfa arbennig ar y thema "Y Ffordd", sef oedfa a baratowyd gan y Parchedig Robin Samuel. Mrs. Megan Tomos, Carmel, oedd yn gyfrifol am drefnu'r oedfa yma yng Ngharmel, gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan, sef :- Dai Ifor, Owain Morgan, Gerallt Hughes, Bryan Griffith, Gwyn Burgess, Deri a Megan Tomos, John a Millie Jones, Joe ac Eira Hughes. Mrs. Helen Williams oedd yn cyfeilio a chafwyd gair o groeso a diolch gan Lywydd y Mis, Mrs. Rhian Roberts.
Yna, ar nos Fawrth, 17 Ionawr, cafwyd cyfarfod cyntaf o'r cynllun "Y Ffordd" dan arweiniad ein Gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Cynhelir yr ail gyfarfod ar nos Fercher 15 Chwefror am 7 o'r gloch.

Capel Bethel
Wedi iddo gael ei dynnu'n ôl o'r farchnad, rhoddwyd Capel Bethel a thŷ'r capel mewn ocsiwn unwaith eto. Pe bai angen, mae lle i greu dau annedd arall ynddo.

Clwb Llanllechid
Cynhaliwyd Clwb Llanllechid ar bnawn Mercher, Ionawr 18 yn Festri Capel Carmel. Estynnwyd croeso gan ddymuno hapusrwydd ac iechyd i bawb. Fe estynnwyd ein cofion at Gwenno sydd yn dal yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Myfanwy ac Arfona ar eu pen-blwydd yn ystod y mis diwethaf ac i'r ddwy ar ddod yn hen nain.
Croesawyd y Parch Christine Mcrae atom a chafwyd darlenniadau o'r Beibl ac o'r llyfr Emynnau.
Rhoddwyd y raffl gan Vera a Margaret Rees Williams a'r enillwyr oedd Margaret Owen a Myfanwy. Daeth yr amser i rannu'r gwobrau o'r raffl Nadolig (prynu sgwâr). Rhannwyd 21 o wobrau. 'Rydym yn diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y gwobrau ac at y raffl. Gwnaethpwyd elw o £146. Yna cawsom de hyfryd wedi'i baratoi gan Ceinwen, ac 'roedd pawb wedi mwynhau yn arw.
Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 15fed.

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.
Un o aelodau ffyddlonaf y Clwb Hanes, Mr. Alaw Jones, ddaeth i sgwrsio gyda ni yng nghyfarfod cynta'r flwyddyn. Testun sgwrs Alaw oedd 'Cardiau Post', a chawsom wybod am yr hyn sy'n gwneud cerdyn post yn un da, gwael, drud, pwysig, gwerthfawr a ffug!! Dangosodd i ni gardiau'n dangos digwyddiadau, neu gardiau'n 'dweud stori', gan mai'r rheiny yw'r rhai mwyaf gwerthfawr, yn hytrach na chardiau sy'n dangos mynyddoedd a golygfeydd o'r fath. Dydi mynyddoedd yn newid fawr ddim dros ganrifoedd, ond mae lluniau o strydoedd, pentrefi, siopau, a digwyddiadau yn gallu ein dysgu am gyfnodau arbennig mewn llefydd

arbennig. Roedd ganddo rai hynod ddiddorol a mawr oedd mwynhad yr aelodau'n pori drwyddynt. Diolch yn fawr, Alaw, am noson ddiddorol arall! Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, - Chwefror 22 pan gawn wybod am 'Deithiau difyr yn yr Ardal' yng nghwmni Mr. Arwyn Oliver a Mr. Now Jones.

Cymhorthdal i gymdeithasau
Bydd dwy gymdeithas o'r ardal (Cylch Meithrin Llanllechid a Chlwb yr Henoed) yn derbyn cymhorthdal ar eu treuliau gan Gyngor Bethesda ond ni wnaed cais gan y cymdeithasau eraill.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn ag Eluned a'r teulu wedi marwolaeth Cyril Ward, Lôn Newydd - colled drist i'w holl deulu a ffrindiau. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ar Ionawr 25ain a rhoddwyd y cyfraniadau ariannol yn garedig iawn tuag at dreuliau Llais Ogwan.
Cydymdeimlwn hefyd â theulu Anne Davies, 2 Ty'n Llan, a fu farw ar ddiwedd mis Ionawr wedi salwch hir.

Hel sbwriel
Diolchwn i'r bobl sydd yn hel mân sbwriel a'i roi yn y biniau wrth iddynt gerdded yn yr ardal. Mae'r llwybr i'r ysgol yn gallu torri calon ambell dro gyda'r llanast sydd yno. Pe bai pob un ohonom yn ymroi i dacluso'n strydoedd a'n llwybrau rhyw fymryn, byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Pen-blwydd
Pen-blwydd hapus iawn i Sion Dafydd, Llwyn Bedw yn 8 oed. Gobeithio i ti fwynhau dy drip i wylïo'r pêl droed!

Saer Coed D.B
Pob lwc i David Ball gyda'i fusnes newydd fel saerc. Mae'n weithiwr diwyd a phrofiadol, a'i waith bob amser yn daclus. Cofiwch gefnogi busnesau lleol! Ewch i'w dudalen facebook 'Saer Coed D.B Joinery' i gael cip ar enghreifftiau o'i waith penigamp.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher,
Chwefror 22

am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.

Bydd Mr. Arwyn Oliver a
Mr. Now Jones yn trafod
'TEITHIAU DIFYR
YN YR ARDAL'
CROESO CYNNES!

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd y cyfarfod deufisol yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddechrau mis Ionawr I dderbyn yr adroddiadau arferol ac i drafod problemau a chyfleon gweithwyr llawrydd a hunan gyflogedig. Nodwyd: bod Llywodraeth Cymru’n bwriadau lleoli’r Institiwt o Waithgynhyrchu ac Ymchwil Uwch yn y Gogledd a’r Banc Datblygu yn y Gogledd hefyd; bod Cyngor Gwynedd

wedi torri 600 o swyddi ers 2010 ac wedi gwneud elw o £1.4 miliwn yn y meysydd parcio’r llynedd; y bydd Cyngor Bethesda’n gwahodd arsylwyr ifanc i gyfarfodydd ac yn cymeradwyo lle parcio ar gyfer cerbydau gwersylla; bod Cymru’n dal i gael cymorthdaliadau o Ewrop er bod Llywodraeth Prydain yn bwriadu tynnu allan o’r Gymuned Ewropeaidd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth yr 2il a’r pwnc trafod yn yr ail hanner fydd y drydedd pont dros y Fenai

Aeth nifer o aelodau i gyfarfod deufisol Plaid Lafur Arfon yng nghanol y mis, yn bennaf i drafod ail strwythuro mewnol ac i ethol anfonogion i Gynhadledd Cymru, a gynhelir tua diwedd mis Mawrth.

Ar ddiwedd y mis, aeth rhai o’r aelodau i gyfarfod

o Blaid Lafur Gwynedd ym Mhorthmadog - yn bennaf i drafod ymgyrchu ar gyfer etholiad Gwynedd ym mis Mai; cyhoeddwyd y bydd o leiaf pymtheg o ymgeiswyr Llafur.

Cynhelir achlysur merched Llafur Arfon ym Mangor ar Fawrth y 4ydd a Bore Coffi Blyneddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar y 18fed o Fawrth.



CHWILAIR

Yn y chwilair y mis yma mae enw DEUDEG TREF / PENTREF YNG NGHYMRU. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy llythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Mawrth 1af . Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Yn ddiweddar mae atebion rhai ohonoch yn cyrraedd trwy’r post braidd yn hwyr, dyna oedd hanes eich ateb chi Margaret Jones, felly gofawch anfon hwy mewn da bryd. Yr ateb cyntaf i ddod i law ar gyfer Chwilair Ionawr oedd un chi, Dilys A. Pritchard-Jones, dim yn cael eich dal allan dwywaith, da iawn. Daeth un ymholiad yn gofyn a oedd modd anfon yr atebion drwy e-bost, yn anffodus gan fy mod yn derbyn llawer iawn o e-byst sydd ddim yn ymwneud a’r Chwilair mae yna bosibilrwydd i mi fethu rhai wrth dderbyn nifer trwy’r post ac eraill mewn e-bost, ac mae’n fwy hwylus i mi fynd trwy’r atebion ar bapur wrth eistedd wrth y bwrdd, a gwneud yn siŵr bod bopeth mewn trefn.Mae enwau trefi / pentrefi Cymru yn ymddangos y mis yma, felly pob hwyl wrth grwydro’r wlad. Dyma atebion Ionawr: Leigh Richmond Roose, (Holt) Ian Rush, (Llanelwy) Ryan Giggs, (Caerdydd) Wayne Hennessey, (Bangor) Malcom Allen, (Deiniolen) John Charles, (Abertawe) Dyma enwau’r rhai a gafodd

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	G	O	G	U	R	H	C	R	E	N	N	A	L	L	S	O	H	R	V
S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D
N	A	P	A	U	Y	S	T	A	L	Y	F	E	R	A	Q	U	S	O	F
R	D	O	G	S	Y	P	Y	H	C	Y	B	N	I	D	M	P	Y	Q	Z
L	L	A	N	G	E	F	N	I	G	R	I	H	C	U	A	M	W	N	O
Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	W	X	U	P	W	C	R	H	C	Q
H	W	E	H	O	Y	E	E	G	B	E	O	M	H	E	H	P	T	T	C
B	B	C	U	U	J	P	L	W	T	M	I	V	V	D	Y	C	B	B	F
R	F	O	G	J	V	I	R	I	R	R	X	I	M	H	N	T	T	O	S
K	O	P	W	R	C	C	M	K	C	B	O	R	C	X	L	V	R	Y	H
S	T	M	R	E	H	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	L	O	S	Y	C
R	A	I	X	N	I	L	X	J	J	M	B	W	T	E	E	X	M	D	D
X	G	W	A	U	N	C	A	E	G	U	R	W	E	N	T	K	A	N	F
U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	H	C	L	A	T
D	G	W	A	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	A	P	R
V	G	O	I	N	I	T	S	E	F	F	U	A	N	E	A	L	B	Y	O
G	J	A	B	E	R	A	E	R	O	N	P	Q	P	G	S	O	W	N	J
J	P	O	R	T	H	M	A	D	O	G	Q	U	L	F	S	V	T	O	X
E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	T	A

yr ateb cywir:- Dilys A. Pritchard_Jones, Abererch; Myfanwy Jones, Gaerwen; Sara Oliver, Tregarth; Alwyn Rowlands, Tregarth; Margaret Williams, Rhos y Coed; Wendy Eccles, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Lois Angharad Hughes,

Gerlan; Carys Parry, Glanogwen; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge. Enillydd Ionawr oedd: Lois Angharad Hughes, 1 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1993-1994

- 1993
- 02-03/1993: Cyhoeddwyd fod y Swyddfa Gymreig yn rhoi grant o £140,000 tuag at adnewyddu'r Ganolfan yn Nhregarth.
 - 05/1993: Dymchwel Capel Pen-y-groes, Tregarth. Cadwyd y festri, a'i hadnewyddu, er mwyn parhau'r achos.
 - 10/07/1993: Carnifál y Gerlan.
 - 18/07/1993 (Sul): Cadarnhau'r penderfyniad, yn unfrydol, i gau Capel y Gerlan, a phenderfynu, ond nid yn unfrydol, i uno yn yr Eglwys Unedig.
 - 25/09/1993: Pwyllgor Gwarchod Dyffryn Ogwen a Chyfeillion y Ddaear Môn ac Arfon yn cynnal rali i wrthdystio yn erbyn codi ffordd osgoi Bethesda. Cyflwynwyd deiseb gyda 1300 o enwau arni i'r Cynghorydd Ieuan Llewelyn Jones a Syr Wyn Roberts, A.S.
 - 10/1993 (y Sul cyntaf yn y mis): Yn ôl arolwg gan Emlyn Evans, Rhos y Nant, nifer y gynulleidfa mewn tri gwasanaeth hwyrol yn y cylch oedd 53.
 - 02/10/1993: Neuadd Ogwen: Lansio *Hen Luniau Dyffryn Ogwen* (llyfryn yn cynnwys 120 o hen luniau), pris £2.00. Cymdeithas Ddiwylliadol Dyffryn Ogwen (a Dafydd Orwig yn arbennig) fu'n gyfrifol am y cyhoeddiad.
 - 04/12/1993: Cyngerdd i ddathlu canmlwyddiant marw'r cerddor R. S. Hughes yng Nghapel Jerusalem. Dadorchuddiwyd plac ar y tŷ lle'r oedd yn byw (1 Rhes Douglas).
 - 12/12/1993: Cynnal y gwasanaeth Nadolig olaf yng Nghapel y Gerlan. Cyflwynwyd Beibl i bob aelod dan 18 oed gan yr aelod hynaf o blant yr Eglwys, sef Mrs Mary E. Williams.
 - 15/12/1993: Cynnal cyfarfod olaf Cymdeithas Lenyddol Capeli'r Carneddi, y Gerlan a Jerusalem yng Nghapel y Gerlan.
 - 12/1993 (diwedd y mis): Caewyd Capel y Gerlan (MC).
 - 26/12/1993: Y Sul olaf yng Nghapel y Carneddi cyn dirwyn yr Achos i

- ben (ac uno yn Jerusalem ar Ionawr 1, 1994, dan yr enw Eglwys Unedig Bethesda).
- Cyngor Arfon yn dynodi rhannau o Ddyffryn Ogwen yn Ardal Adnewyddu - y rhan fwyaf o rannau preswyl Carneddi, Pen-y-bryn, Gerlan, Braichmelyn a Chefnfaes (tua 260 o erwau ac oddeutu 1156 o adeiladau gyda 90% o'r rhain mewn perchenogaeth breifat).
 - Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol olaf Capel Jerusalem. Cyhoeddwyd yr Adroddiad nesaf yn enw'r Eglwys Unedig.
- 1994
- 01/01/1994: Eglwys Unedig Bethesda yn dod i fod.
 - 23/01/1994: Gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Gerlan i ddod â chanrif a chwarter o addoli yn y capel i ben. Rhoddwyd plât neu gwpan a soser gydag enw'r Capel arnynt i bob teulu a oedd yn aelodau yno.
 - 01-02/1994: Cyhoeddi bwriad Cyngor Arfon i godi Neuadd Chwaraeon Amlbwrpas ar dir Ysgol Dyffryn Ogwen, cynllun a fydd yn costio dros £1m.
 - 26/03/1994: Ailddechrau dangos ffilmiau yn Neuadd Ogwen. Buasai'r ymarfer yn aflwyddiannus yn 1990 a chafwyd 'colledion aruthrol'.
 - 04/1994: Y maes parcio newydd yng Nghae Star bron â bod yn barod.
 - 28/05/1994: Ailagor Canolfan Gymdeithasol Tregarth.
 - 05/1994: Cyhoeddwyd na fyddid yn cynnal Carnifál Glanogwen eto. Buasai'n rhan o galendr y Dyffryn ers 1980.
 - 27/08/1994: Carnifál Mynydd Llandygái.
 - 28/11/1994: Dathlu 'chwarter canrif o warchod' - Cartref yr Henoed, Plas Ogwen, yn 25 oed. Costiodd £80,000 i'w adeiladu yn 1969. Mae'n gartref i 28 o bobl mewn oed.
 - Dymchwel Capel y Gerlan, Capel y Carneddi a hen Ysgol y Carneddi. I'w barhau

gair neu ddau

John Pritchard

Capel neu Eglwys?

Roedd pethau mor syml ers talwm: capel oedd capel, ac eglwys oedd eglwys. Roedd pawb yn deall peth felly. Roedd gan eglwys dŵr a chloch ac allor a ffenestri lliw. Roedd gan gapel set fawr a phulpud a seddi caled. Ac roedd pawb ohonom (yn ôl y cof niwlog sydd gan lawer ohonom am y pethau hyn) yn mynd i'r naill neu'r llall. Ie, 'mynd i'r capel' neu 'fynd i'r eglwys' oedd ein hanes: lle i fynd iddo oedd y ddau.

Ond yna, fe wawriodd ar gapelwyr fod y gair 'eglwys' yn eiddo iddyn nhw hefyd, wrth iddyn nhw sylweddoli o'r newydd mai pobl yn hytrach nag adeilad oedd (ac ydyw) Eglwys y Testament Newydd ac Eglwys Iesu Grist ym mhob cyfnod. Cymdeithas o bobl sy'n perthyn i'w gilydd trwy eu ffydd yn Iesu Grist yw Eglwys, nid adeilad o gerrig neu frics a mortar. Ac wrth i gapeli gau ac i gynulleidfaoedd ddod at ei gilydd, fe roddwyd enwau newydd i nodi'r dechreuad newydd; a'r enwau hynny mewn sawl achos yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth newydd hon. Nid nepell oddi wrthym mae 'Eglwys Unedig Bethesda', 'Eglwys Emaus' (ym Mangor), ac 'Eglwys Y Waun' (yn Waunfawr), a'r tair ohonyn nhw'n cyfarfod mewn capel.

Os yw'r enwau newydd yn arwydd o ddealltwriaeth newydd o fewn yr eglwysi, maen nhw'n medru achosi dryswch i rai pobl. Mae'r enw 'Eglwys' ar wal flaen capel yn gryn ddirgelwch i ambell un, fel y gwelais yn ddiweddar wrth glywed dau ddyn yn trafod yr enw 'Eglwys y Waun' ar y capel yn Waunfawr. Wedi canrifoedd o ddefnyddio'r gair 'eglwys' am fath arbennig o adeilad, mae'n anodd i bobl weld mai pobl yw eglwys yn gynta'i gyd.

Na, nid lle i fynd iddo yw eglwys, ond cymdeithas yr ydym yn perthyn iddi trwy ffydd yn Iesu Grist. A gall y gymdeithas honno gyfarfod mewn capel neu eglwys neu neuadd neu unrhyw le arall. Gallai deall hynny o'r newydd wneud byd o les i bawb ohonom sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r Ffydd Gristnogol. Nid rhywbeth yr ydym yn mynd iddo neu yn ei gefnogi ydi eglwys, ond cymdeithas fyw yr ydym ni yn rhan ohoni hi (ac y mae hithau, o reidrwydd felly, yn rhan amlwg a chanolog o'n bywydau ninnau) fel dilynwyd Iesu Grist.

John Pritchard

Bali Wali Honco

Nos Wener, 20 Ionawr a phrynhawn Sadwrn, 21 Ionawr fe lwyfanwyd y pantomeim Bali Wali Honco, cynhyrchiad cyntaf Cwmni'r Llechen Las ers ei ail-sefydlu'r llynedd. Bu'r cwmni'n cydweithio â Chlwb Drama Crawia a Neuadd Ogwen i lwyfannu'r panto, ac fe ddaeth cynulleidfda dda i'r ddau berfformiad. Cafodd Llais Ogwan air ag awdur y sgript, oedd hefyd yn actio yn y sioe, Gaynor Elis-Williams.

“Ro’n i’n hapus iawn o weld y Neuadd yn llawn, o bobl a phlant o bob oed,” meddai Gaynor. “Un o’r pethau roedden ni’n trio’i wneud oedd tynnu’r gymuned at ei gilydd, a dw i’n meddwl ein bod ni wedi llwyddo i wneud hynny. ‘Roedd yr ystod oedran ar y llwyfan yn ymestyn o 8 i dros 70, ac ‘roedd hi mor galonogol gweld cymaint o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan.”

“Mae gan nifer o’r plant sy’n aelodau o Glwb Drama Crawia rieni di-Gymraeg. Gan mai’r Gymraeg ydi iaith y Crawia a’r Llechen Las, roedd yr holl brofiad yn rhoi cyd-destun cymdeithasol i’r Gymraeg mae’r plant wedi ei dysgu yn yr ysgol, ac roedd eu rhieni’n gwerthfawrogi hynny.”

Bu Gaynor yn gweithio ar sgript Bali Wali Honco drwy fisoedd yr haf, gan gyfarfod yn rheolaidd â Marian Jones, sy’n athrawes yn Ysgol Llanllechid ac wedi hen arfer ag ysgrifennu sioeau i’r disgyblion yno. “Roedden ni ar yr un donfedd wrth ddatblygu’r stori, ac er mai fi ysgrifennodd y geiriau, roedd mewnbwn Marian i’r sgript yn fawr,” meddai Gaynor. “Marian hefyd ysgrifennodd eiriau’r rhan fwyaf o’r caneuon, ac roedden nhw’n eiriau gwyach, felly mi faswn i’n hoffi diolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith.”

“Diolch enfawr hefyd i’r bobl oedd



yn gweithio tu ôl i’r llwyfan – ar y set, efo’r props a’r gwisgoedd yn arbennig. Mi roddodd cymaint o bobl o’u hamser am ddim i wneud y gwaith yma, a’i wneud o mor raenus. Fasen ni ddim wedi medru llwyfannu’r sioe hebddyn nhw,” ychwanegodd Gaynor.

Eisoes mae pobl wedi bod yn holi be’ nesa’ i’r Llechen Las. “Erbyn i’r Llais ymddangos mi fyddwn ni wedi cyfarfod i drafod hynny,” meddai Gaynor. “Ein nod ni ydi llwyfannu dau gynhyrchiad neu ddigwyddiad y flwyddyn.” Fydd ‘na banto arall y flwyddyn nesa’? “Nid fy lle i fel unigolyn ydi penderfynu,” meddai Gaynor, “ond dydw i ddim isio gweld rhai o’r cymeriadau’n diflannu.” Gwylwch y gofod, felly!

Mae Cwmni'r Llechen Las yn cyfarfod yn Neuadd Ogwen rhwng 8.00 a 9.00 ar nos Iau ac yn croesawu aelodau newydd. Am fanylion ynglŷn â Chlwb Drama Crawia, cysylltwch â Dilwyn Llwyd yn Neuadd Ogwen.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a’r Siop yn Llanrwst

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a rwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Nyth Y Gân

Y Lladrad
(yn seiliedig ar stori wir)

Fe glywodd ryw ŵr gweddw
Sŵn cnocio ar ei ddrws
Ac yno roedd dwy sipsi
Yn dal basgedi tlws.

Llygadog oedd y merched
Yn gweld rhyw arian mân
Yn eistedd mewn rhyw botyn
A'r lle yn dwt a glân.

Gofynnodd un ohonynt
Am ddiod bach o ddŵr
A'i hudo gadd ar unwaith
I'r cefn heb unrhyw stŵr.

Fe ddaeth y llall yn sydyn
I mewn ac am y pot
A'i wagio yn bur sydyn
Dan begiau yn un lot.

Peth amser a aeth heibio
A dagrau ddaeth i ran
Yr un a gollodd arian
Ac ef mor hen a gwan.

Crud y Lliwiau
Mor dawel yw y dydd yn awr
Does ynddo fawr o ganu,
Y coed sydd farwaidd ym mhob man
Yn gwneud eu rhan o gysgu.

Fel hyn y byddant am yn hir
Uwch ben y tir yn aros
I'r gwanwyn eto droi ei ben
A'r lili wen ymddangos.

Mor wych fydd gweld y lle i gyd
Mewn crud o liwiau newydd
Yn syllu ar yr heulwen braf
A ddeno'r haf a'i dywydd.

Y Brodor
Hen afon oedd ei nefoedd, a hynod
Fu hanes y dyfroedd;
Yn y dydd ei chlywed oedd
Yn naddu drwy'r mynyddoedd.

Dafydd Morris

Ysgol Pen-y-bryn

Rygbi
Mae Carwyn wedi ailgychwyn y sesiynau rygbi, ond gyda phlant Glyder ac Elidir y tro hyn. Mae'r plant yn mwynhau ac wedi dysgu llawer o sgiliau'n barod. Diolch, Carwyn!

Estyn
Ar Ionawr 18fed, croesawodd yr ysgol Mr. Maldwyn Pryse o Estyn, a ddaeth atom i weld ein gwaith gwyddoniaeth a thechnoleg. Braf oedd gweld y plant yn cyflwyno'u gwaith ac yn trafod yn hyderus yr hyn yr oeddent wedi bod yn ei wneud.

Staff newydd
Hoffai pawb groesawu Miss Lisa Jones i'r ysgol fel athrawes newydd i ddosbarth Carnedd. Mae hi wedi setlo'n syth a gobeithiwn y bydd yn mwynhau bod gyda ni ym Mhen-y-bryn.

Techniquest
Cafodd bawb yn yr ysgol gyflwyniad Techniquest ar ddefnyddiau ar Ionawr 19eg. Mwynhaodd y plant y gwahanol arddangosfeydd wrth iddynt ddysgu am gysyniadau gwyddonol.



Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar Ionawr 31ain yng Nghanolfan Cefnfaes. Adroddodd ein hysgrifennydd aelodaeth bod aelodau newydd wedi ymaelodi â'r gangen yn ddiweddar. Croeso iddynt. Dymunwyd yn dda i Ceinwen ac Ieuan Evans sydd wedi symud o Llandygai i Ynys Môn. Bu Ceinwen yn weithgar fel ysgrifennydd y gangen ac ysgrifennydd y pwyllgor ymgyrch am nifer o flynyddoedd.

Oherwydd prysurdeb yn y dyffryn nid oeddem wedi cyfarfod fel cangen ers cyn y Nadolig. Mae llawer ohonom ynghlwm â'r gwahanol gyfarfodydd a drefnwyd yn ymwneud â throsglwyddo asedau y Cyngor Sir. Da yw gweld bod diddordeb yn yr ardal am ddyfodol yr asedau hyn megis y llyfrgell a Chanolfan Cefnfaes.

Trefnwyd Bore Coffi a gynhelir ar Chwefror 25ain yng Nghanolfan Cefnfaes. Edrychwn ymlaen i weld Hywel Williams ein Haelod Seneddol yn bresennol. Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol ar Chwefror yr 28ain a drefnir fel noson Baned a Chrempog yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda.

Y Rhyfel Byd Cyntaf

(WEEPING WINDOW)

Robert Jones gan Andre Lomozik

Fis diwethaf ceisiais gael llun o Robert Jones o amgueddfa Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig ym Modelwyddan. Cefais ateb yn ôl yn dweud nad oedd ganddynt lun yn eu cofnodion. Yna yn ystod y mis daeth dau o deulu Robert i gysylltiad â mi, sef Elwyn Owen, Llandegai, ac Alan Jones, Bryntirion. Cefais lun o Robert Jones a dau arall o Fethesda ganddynt. 'Roedd Robert Jones yn frawd i nain Elwyn ac yn hen daid i Alan. Dyma lun o Robert gyda dau gyfaill o Fethesda. Richard Thomas yw'r bachgen sydd yn sefyll, ac 'roedd yn byw yn 2 Gordon Terrace

yn ôl Elwyn ac Alan. 'Roedd Robert a Richard yn gefndryd. William ? (o Benybryn) yw enw'r un sy'n gwisgo het, ond nid oes fawr mwy o wybodaeth amdano hyd yn hyn. A oes rhai o ddisgynyddion eraill y bechgyn a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf â llun ohonynt, neu fwy o wybodaeth amdanynt? Ac os oes, a ydynt yn fodlon i mi gael gwneud copi o'r llun er mwyn creu archif ffotograffig ohonynt ynghyd â rhywfaint o'u hanes. Cysylltwch â mi ar 01248 602117 neu e-bost andrelomozik29@btinternet.com



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 25 Chwefror – Cefnfaes – Plaid Cymru.
- 04 Mawrth – Cefnfaes – Ysgol Sul Capel Jerusalem.
- 11 Mawrth – Cefnfaes - Cylch Meithrin Cefnfaes
- 18 Mawrth – Cefnfaes – Plaid Lafur.
- 25 Mawrth – Cefnfaes – Cronfa Achub y Plant
- 01 Ebrill – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
- 08 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 22 Ebrill – Cefnfaes - Capel Jerusalem .
- 29 Ebrill – Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
- 06 Mai – Cefnfaes – Neuadd Talgai
- 13 Mai – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
- 20 Mai – Cefnfaes - Gorffwysfan
- 10 Mehefin – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 01 Gorffennaf – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
- 07 Hydref – Cefnfaes – Plaid Cymru
- 21 Hydref – Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 28 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
- 04 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
- 11 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Mawrth 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Ebrill 8fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mai 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI PLAID CYMRU
25 CHWEFROR 2017
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 13 Mawrth 2017
am 7.00 o'r gloch
yn Festri Capel Jerusalem

Ieuan Wyn
Gwerthfawrogi a Diogelu
Cyfoeth Enwau Lleol
(Darlith Goffa Rhiannon Rowlands)

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
CHWEFROR 28
MAWRTH 14 a 28
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Dathlu Gŵyl Ddewi

Dydd Sul, 5 Mawrth 2017

Gorymdaith
Cychwyn o'r maes parcio ger y Feddygfa am 1.30

Cyngerdd
Eitemau gan Ysgolion Lleol a'r band ifanc "CHWALFA"
yn Neuadd Ogwen am 3.00 o'r gloch

Dewch yn llu i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant!

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI YSGOL SUL JERUSALEM
SADWRN 4 MAWRTH
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYLCH MEITHRIN CEFNFAES
SADWRN, 11 MAWRTH
10.00 – 12.00

Balchder Bro Ogwen
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yng Nghanolfan Cefnfaes
NOS FAWRTH, 21 CHWEFROR
am 7.30
Croeso cynnes i bawb.

PLAID CYMRU
Cangen Dyffryn Ogwen

Cyfarfod Blynyddol
yng Nghaffi Coed y Brenin
Nos Fawrth, 28 Chwefror
am 7.00 o'r gloch
Panad a Chrempog i ddilyn

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI PLAID LAFUR
SADWRN, 18 MAWRTH
10.00 – 12.00

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Dosbarthwr a Gwerthwyr y Llais

Yn olynu Helen Berry mae gan y Llais werthwr a dosbarthwr newydd yn yr ardal. Terry Hughes, 21 Arafon, yw'r gwerthwr newydd a Wyn ap Iorwerth, Glanrafon Bach, yw'r dosbarthwr. Diolch i'r ddau ohonynt am eu parodwydd i ymgymryd a'r gwaith, a diolch i Helen am ei gwaith hithau yn y gorffennol. Mae'n diolch, a'n dyled ni hefyd, i'r pedwar gwerthwr arall o fewn yr ardal sef Lynn Ashton, Cilgeraint Isaf; Elin Sanderson, Bron Llus; Iona Rhys Cooke, Gefnan a Rhianedd Roberts, 14 Arafon.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mr. Ceinion Williams, Tŷ Capel Amana, sydd wedi bod am law-driniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ond gartref erbyn hyn. Mawr obeithiwn eich

bod yn teimlo'n well. Rydym yn meddwl amdanoch.
Newydd glywed bod Mrs. Margaret Hughes, Ffrancon View, wedi bod yn wael yn Ysbyty Gwynedd. Da clywed ei bod gartref erbyn hyn. Anfonwn ein cofion atoch gan fawr obeithio eich bod yn gwella.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Chwef.19: Boreol Weddi
Chwef. 26: Cymun Bendigaidd
Mawrth 5: Gwasanaeth Teuluol
Mawrth 12: Cymun Bendigaidd
Mawrth 19: Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y.b.
Cynhelir "Te Crempog" prynhawn
Mawrth, 28ain Chwefror rhwng 3 - 5 p.m.
Croeso cynnes i bawb ymuno â ni am baned.

Os oes unrhyw un yn dymuno trefnu unrhyw wasanaeth arall cysylltwch â'r Parchedig John Matthews (364991) neu'r Parchedig Christina McCrea (372249), os gwelwch yn dda.
Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd. Brysiwch wella!



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn

ER COF
Am


EDWARD JOHN OWEN

Milwr Cyffredin 9234
Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw
1 - 2 - 1917

Yn 36 oed

ROBERT EVANS JONES

Milwr Cyffredin 700793
Catrawd Manitoba Troedfilwyr Canada
A fu farw
26 - 2 - 1917
Yn 23 oed
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)



Marchnad Ogwen

Mae'n siŵr mai un o ddigwyddiadau pwysig y flwyddyn yw Sul y Mamau - a Neiniau! Beth i'w gael yn anrhegion sy'n wahanol?? Mae pob math o gynnyrch ar gael yn y Farchnad - blodau, cacennau, cardiau, siocled ac anrhegion unigryw. Felly Marchnad Ogwen amdani i siopa at Sul y Mamau, Mawrth 26ain.

Ar hyn o bryd, mae'r Standin Elusen a'r Standin 'Un Tro' ar gael ym Marchnad Mawrth. Cysylltwch gyda'r ysgrifennydd os oes gennych ddiddordeb. ysgrifennydd@ marchnadogwen.co.uk

Gobeithio y caiff ein cwsmeriaid ddathliadau Gŵyl Ddewi pleserus a gobeithio y cawn eich gweld ym Marchnad mis Mawrth.

Mae gwybodaeth gyfredol ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Facebook a Twitter.



Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

KARATE-DO

Y Ffordd Waglaw

KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Ffrancon

Dwy wers gynta am ddim

HUNAN AMDDIFFYN - HUNAN RYDER
FETRWYDD - DISCYBLAETH - PARCH
SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO
TRADDODIADOL

- * £35 y mis disgowntu teuluol
- * Dim Cytundeb, Dim Cyfeirnod Debyd
- * Strwythur Graddio Traddodiadol
- * Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Byd 2007
- * Pennaeth Soke Yamada Sensei 10fed Dan o Japan

NOS FRIWARTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED
AC UDDOLION

I SICRHAU EICH LLEYN Y CLWB:

FFON: 07595 361624
Email: shukokaiwales@icloud.com
YWE: www.shukokai-wales.com
holi ni ar facebook [facebook.com/shukokainorthwales](https://www.facebook.com/shukokainorthwales)

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

EIRA!

Mae siarad am y tywydd yn ail natur i ni, ac yn fodd i gynnal sgwrs pan nad oes llawer arall i'w ddweud. A phetai'n bwrw eira, mae hynny'n destun siarad gan bawb!

Ond faint o eiriau sydd i ddisgrifio eira yn benodol? Mae yna ystôr ohonynt yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, a rhai ohonynt yn hen iawn. Er enghraifft sonnir am **friwod**, sef eira mân a yrrir gan y gwynt, a **chynneiry**, sef eira cyntaf, tua'r flwyddyn 1400 yn Llyfr Coch Hergest. Mae'r bardd Iolo Goch yn cyfeirio at liw **nyf**, sef lliw eira, yn y 14^{eg} ganrif, a Dafydd ap Gwilym yn sôn am ôd (eira), gair sydd ar lafar o hyd mewn rhai ardaloedd yn y ferf **odi** (bwrw eira).

Ar ddiwrnod **eiriog** (llawn o eira), efallai mai **ffluwch** (haen denau), **ffrechen** (cawod ysgafn), neu **sgimpen** (haen denau) a gwymp, neu daw **eirwynt** a **lluwch** neu **luchfa** o **fanod** (mân ôd, eira mân) i'n cadw i ffwrdd o'r lonydd ac o'r gwaith. Ac wrth gwrs mewn ychydig o ddiwrnodau, bydd y **gwynneiry** (eira gwyn) neu'r **hiffiant** (eira wedi ei yrru gan y gwynt) wedi troi yn **isgell** neu **botes eira** (eira tawdd) hyll a budr.

A wyddoch chi am unrhyw hen eiriau lleol neu anghyffredin i ddisgrifio'r eira (neu unrhyw dywydd arall)? Chwiliwch amdanynt yn GPC ar lein (ac am ddim), <http://gpc.cymru>. Ac os nad ydynt yno, byddwch mor garedig â chysylltu â ni ar gpc@geiriadur.ac.uk neu Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthoch!

Clwb Criced a Bowlïo Bethesda

Parc Villa, Lon Newydd, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT

- Bingo pob nos Sadwrn, yn cynnwys 'bingo pelen eria' (snowball) a gem agor y bocs ar gael i aelodau.
- Lleoliad ar gael i'w logi, prisiau rhesymol.
- Lleoliad gwyh ar gyfer amryw o ddigwyddiadau – partïon, bedydd, gigs, cynhadleddau, cyfarfodydd ayyb.
- Cyfleusterau modern gyda'r Brif ystafell a thoiledau wedi eu hadnewyddu'n ddiweddar.
- Cyfleusterau yn cynnwys: tair ystafell fawr, maes parcio preifat efo digon o le, cegin gyda chyfarpar newydd, ystafell gyfarfod, bar, llwyfan, bwrdd snwcer a bwrdd pŵl.

Cysylltwch am fanylion. Oriau agor hyblyg ar gyfer digwyddiadau a phrisiau cystadleuol.

Manylion Cyswllt:
cricedbethesdacricket@outlook.com, (01248) 600833,
 ClwbCricedBethesda  @CricedBethesda

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Gwella
Mae'n dda clywed bod Tess merch fach Angharad a Gareth Wyn, Tŷ Newydd, Cilfodan yn gwella ar ôl dioddef o lid yr ymennydd. Bu Tess yn Ysbyty Gwynedd am driniaeth ac wedi cyfnod poenus o ofid mawr i'r teulu mae'n dda gallu dweud ei bod wedi gwella'n llwyr. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r teulu i gyd. Mae salwch mor ddifrifol ar blentyn bach yn gadael pawb yn teimlo'n ddiymadferth iawn.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Anwen a Gruffydd Wyn, Rhostryfan ar enedigaeth merch, Enid, chwaer i Now a Lewis. Mae Nain a Taid, Talgarreg, Ffordd Carneddi wrth eu boddau. Llongyfarchiadau hefyd i Angharad a Bleddyn, Fron, Cilfodan, ar enedigaeth Alaw Madlen ar Ionawr 26. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

Derbyn Gofal
Mae dau o drigolion yr ardal wedi mynd i Blas Ogwen i dderbyn gofal ac anfonwn ein dymuniadau gorau i'r Parchedig John Owen, Y Wernos, Cilfodan ac i Elfed Evans, Hen Barc. Ni fu'r ddau yn dda eu hiechyd yn ddiweddar ond maent mewn ysbryd pur dda. Bu Elfed yn Ysbyty Gwynedd ac yng Ngherrig yr Afon, Y Felinheli am gyfnod ond mae'n ymfalchïo ei fod wedi cael dod yn ôl i fro ei febyd.

Cyfarchion Pen-blwydd
Dathlodd dau o wyrion Mr. Vic Roberts, Cilfodan, eu pen-blwyddi yn ddeunaw oed tua diwedd 2016, ac mae taid a'r teulu yn anfon cyfarchion hwyr i'r ddau, sef: Iwan Llwyd Roberts, Llain, Carneddi (26 Hydref 2016) a Morgan Aled Roberts, 89 Ffordd Carneddi (24 Tachwedd 2016). Hefyd, llongyfarchiadau i Iwan wedi iddo basio ei brawf gyrru ddiwedd Rhagfyr.

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Creffttau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!
Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.
33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

EGLWYS UNEDIG BETHESDA


Y GYMDEITHAS
DATHLU GŴYL DDEWI

YNG NGHWMNI GWENAN GIBBARD
NOS IAU, MAWRTH 9,
YN FESTRI'R CAPEL AM 7 O'R GLOCH
CROESO CYNNES I BAWB!

Clustnodau Defaid Ogwen

*Plwyf Llanllechid gan Andre Lomozik
a Dafydd Jones (Fferm Melin Coetmor)*

Sawl blwyddyn yn ôl cefais lyfryn bach wedi'i rwymo mewn clawr du. Ei fesuriad oedd saith modfedd wrth bedair a hanner. Nid wyf yn cofio pwy roddodd y llyfryn i mi, ond oddi mewn iddo 'roedd rhestr o glustnodau plwyf Llanddeiniolen, Nant Llanberis Uchaf, Nant Llanberis Isaf, a Chapel Curig. Y llynedd anfonais gopi ohono i Dafydd Whiteside Thomas, hanesydd lleol ardal Eco'r Wyddfa, gan feddwl y byddai o ddiddordeb iddo, a darllenwyr yr Eco. Yna dechreuais feddwl beth oedd hanes clustnodau ardal Llais Ogwan, a pha mor bell yn ôl yr oedd modd olrhain y nodau yma, a'u cysylltu â ffermydd y gorffennol. 'Roeddwn wedi gweld cofnod o enwau Ffermydd Stad y Penrhyn, yn dyddio o'r flwyddyn 1768, gan Ernest Roberts, mewn hen rifyn Llais Ogwan o'r saithdegau hwyr. Felly meddyliais tybed oedd modd cysylltu'r nodau â'r ffermydd yn y rhestr. Ond y cwestiwn mawr oedd gan bwy fyddai'r wybodaeth am y nodau.



Dyma daro ar Dafydd Jones, Fferm Melin Coetmor, ar fy ffordd adref o'r gwaith un diwrnod, a gofyn iddo a fyddai yn gallu rhoi ychydig o wybodaeth i mi, neu fy anelu i'r cyfeiriad cywir. Ei ateb oedd 'Dim problem, mae sawl llyfr nodau clustiau gen i yn y tŷ: croeso i ti alw heibio a chael golwg arnynt'. Wel, dyma ddrws yn agored o flaen fy llygaid, i fyd nad oeddwn yn gwybod fawr ddim amdano. Wrth gwrs 'roeddwn yn gwybod bod dafad yn cael nod i ddangos pwy oedd perchennog yr anifail. Ond nid oeddwn yn gwybod am nifer y gwahanol doriadau oedd yng nghlwm â hyn, a'r termau niferus oedd yn disgrifio'r holl doriadau. Eglurodd Dafydd mai'r glust dde oedd y brif fan cychwyn i adnabod perchennog y ddafad, neu'r fferm y perthynai iddi, ac mai edrych o gefn y ddafad ymlaen oedd y rheol. Er enghraifft: dyma dorri blaen y glust dde a holli, cnwyad yn y chwith, cyllelliad oddi arni a dyrniad cyllell oddi tani. Byddai'r nod yn aros gyda'r fferm neu gynefin, tyddyn, neu hyd yn oed tŷ ac ychydig o dir ynghlwm â'r tŷ - nid gyda'r unigolyn, gan fod unigolyn yn gallu symud o'r ardal neu hyd yn oed ymfudo i wlad arall. Roedd sawl chwarelwr neu unigolyn yn yr oes a fu yn cadw defaid, ac yr oedd ganddynt hawl i bori'r anifeiliaid ar y tir comin (mynydd). Dywedodd Dafydd wrthyf bod tua dau gant o nodau gwahanol yn cael eu defnyddio yng nghylch Llanllechid ar un amser. Mae un o'r llyfrau sydd ym meddiant Dafydd yn enwi 139 o ddynion ac 8 o ferched a'u cyfeiriadau, a dau gant a deg o wahanol nodau yn cael eu dangos. Erbyn heddiw mae nifer y ffermydd wedi lleihau yn sylweddol, er bod y nodau eraill yn parhau mewn bodolaeth. 'Roedd sawl fferm gyda mwy nag un nod, er enghraifft Tŷ Slatters 3; Bronydd Isa 2; ac 'roedd cyfeiriad at rhai nodau yn Mountain Rd., Water St., Well St., ac Ogwen Bank Bethesda. Cefais wybod hefyd mai un fferm o'r ochr draw i'r afon Ogwen (ochr Tregarth) sydd â hawl i bori defaid ar y mynyddoedd uwchlaw Bethesda, sef Ty'n Clwt, gan fod gwely'r afon Ogwen wedi newid erbyn heddiw. 'Roedd gan Ty'n Clwt dir ar ochr Llanllechid yn y dyddiau cyn i'r afon newid ei chwrs.

Yn ogystal dangosodd Dafydd wahanol fathau o weill y mae'n eu defnyddio i wneud y toriadau. Fe welir yn y llun isod chwe gwaell, dwy a ddefnyddir i gneifio, a phedair i dorri nod clust. 'Roeddwn yn meddwl mai gefail leol oedd yn cynhyrchu'r gweill yma, yn y dyddiau a fu, neu efallai eu bod yn cael ei gwneud yn y Felin Fawr a berthynai i'r chwarel, ond ar un ohonynt mae enw ffatri o Sheffield, sef 'Burgon & Ball Ltd' Sefydlwyd y cwmni yma yn y flwyddyn 1730, ac erbyn heddiw mae yn dosbarthu nwyddau i bedwar ban byd, felly mae'n debygol bod y ffermwyr lleol yn gallu prynu'r gweill gan fasnachwyr amaethyddol yn yr ardal. Mae un arall o'r gweill ym meddiant Dafydd ac enw cwmni o Sydney, Awstralia, arni. Yn ôl Ernest Roberts, yn y flwyddyn 1768 'roedd 256 o ffermydd ar Stad y Penrhyn, cyfanswm o 22,403 acer, er bod llawer un wedi'u cysylltu â fferm fwy, ac eraill wedi'u colli pan fu i Barc y Penrhyn gau tua 1820. Mae'n bosib felly cysylltu 20 o'r nodau yma â'r ffermydd oedd yn rhestr 1768, ac sydd yn dal mewn bodolaeth hyd heddiw, sef Aberogwen, Braich Tŷ Du, Bronydd, Bryn Eithin, Bryn Hafod y Wern, Cae Ifan Gymro, Ciltwillan, Cochwillan, Corbri, Gerlan, Gwaun Gwial, Parc, Pen y Bryn, Tai'r Meibion, Talybont, Talysarn, Tan y Garth, Tŷ Gwyn, Tyddyn Isaf, a Tyn y Maes.



Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mrs Myra Jones, Bron y Waun: bu farw mab ei chyfneither, Dafydd Hughes, Ty'n Rhos, Bethel a Llanberis. Anfonwn ein cofion hefyd at ei fam, sydd ym Mhlas Pengwaith, ei blant Llion, Llinos Lliwen, a'i chwaer a'i gyymar Shirley a'r teulu estynedig. Roedd Dafydd yn hoff iawn o ganu, yn aelod o Gôr Meibion Peris ac yn aml yn canu hefyd gyda Chôr Meibion Dinas Bangor, a braf oedd clywed cyfuniad o'r ddau gôr yn canu yn Eglwys Sant Padarn ac yn yr Amlogsgfa.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Steffan a Debbie Job, Bro Rhiwen: bu farw Mrs Gwen Job, nain Steffan a hen nain Ben ac Ana. 'Roedd wedi ymgartrefu yng nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn ond yn dod o Aberystwyth gynt. Ein cofion atoch fel teulu.

Merched y Wawr

Ar ddechrau blwyddyn 'rydym fel arfer yn cynnal Brethyn Cartref a dyna'r drefn eleni eto. Cawsom gwis hwyliog wedi'i drefnu gan Nia, gyda digon o amrywiaeth ac yn heriol ar adegau! Tîm Annes, Gwen a Helen oedd yn fuddugol ond 'roedd y timau eraill yn gyfartal ac wrth eu cwt. Croesawyd Mrs Elina Owen atom, a diolchwyd i Nia am lunio'r cwis. Nia ac Iona oedd yn gyfrifol am y baned. Gwenno Evans enillodd y raffl. Atgoffwyd ni eto am y dathliadau i ddod eleni.

Mis nesaf, Chwefror 14, fe fydd Sonia Williams yn dod atom i roi sgwrs inni ar "Hyder mewn Lliwiau".

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Ionawr 11: Croesawyd ni i gyfarfod cyntaf y flwyddyn gan Ann ac fe'n hatgoffwyd o'r drefn newydd, sef cyfarfod ar yr **2il a'r 4ydd Dydd** Mercher o'r mis. Trefnwyd rhaglen ar gyfer y tymor sydd i ddod. Cawsom baned ac 'roedd Ann wedi dod â theisen flasu inni. Jean enillodd y raffl.

Cyfarfod Ionawr 25. Roedd y dyddiad yn arwyddocaol, sef Dydd Santes Dwynwen a bu trafod ychydig o'i hanes, Gareth oedd yn gofalu am y baned ac ef hefyd enillodd y raffl.

Cyfweliad ar Heno

Rai misoedd yn ôl 'roeddym yn llongyfarch Sion Huw Thomas, Uwch Mynydd, Caeau Gleision ar ennill dwy wobr arbennig: Busnes Ffitrwydd gorau Gogledd Cymru 2016 a Pherson Busnes Ifanc Gogledd Cymru 2016.. Mae'n ymddangos bod ei lwyddiant wedi dod i glyw rhaglen Heno a chafodd ei gyfweld gan Gerallt Pennant. I ddechrau 'roedd Gerallt gyda Sion yn Ysgol Tudno, Llandudno, lle mae'n gwirfoddoli mewn sesiynau gwrth-fwllo. Yna fe'i gwelsom mewn dosbarth oedolion, pryd y cafwyd canmoliaeth i safon y dysgu gan yr aelodau. Llongyfarchiadau Sion - 'rydym yn falch bod y busnes yn mynd o nerth i nerth.

Dymuno'n dda

Mae amryw wedi bod yn cwyno ers dechrau'r flwyddyn - gobeithio eich bod yn gwella. Cofion atoch i gyfrif.



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



武術
身道
並兼
練場

Wu Shu Kwan®

Chinese Kickboxing

The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com \ Gwepllyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am lwy o fanylion neu os am roi cynnig arni,
dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN

Stryd Fawr, Bethesda

CANOLFAN TREGARTH

Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru
- Hyfforddwyr -

Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**
4ydd Gradd Gwregus Du
Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**
3ydd Gradd Gwregus Du

Y Ffordd Hawsa a'r Mwyaf Effeithiol i Wella Eich:
Cryfder • Cyflymdra • Ystywydder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

Ysgol Rhiwlas

Trip i Tesco

Dydd Llun, Ionawr 23 cafodd disgyblion dosbarth Mr Davies gyfle i ymweld ag archfarchnad Tesco ym Mangor, fel rhan o'u hymgyrch Fferm i'r Fforc. Mae dosbarth CA2 wrthi'n astudio sut i greu bara ar hyn o bryd a chawsant gyfle i dylino toes a chreu eu bara eu hunain yn ystod yr ymweliad

yn ogystal â chael ei goginio yn y popty enfawr yng nghefn y siop.

Ymweliad gan Marc Griffiths

Dydd Mercher, 25 Ionawr, daeth Marc Griffiths i Ysgol Rhiwlas i gynnal hyfforddiant i ddisgyblion Yr Adran Iau ar sut i ddefnyddio'r offer radio newydd sydd

wedi cyrraedd yr ysgol. Bydd y disgyblion yn gallu creu eu rhaglenni radio eu hunain o hyn ymlaen a'u darlledu ar Cymru FM a byddant yno'n fyw i bawb allu eu clywed ar y we. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn arw at gael sgriptio eu rhaglenni radio eu hunain a dewis caneuon ar gyfer y darllediadau.

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Cychwyn gwlyb i lawer iawn o bentrefi Cymru (4)
- 4 Marc y partner (5)
- 9 Dyfal ym yn yr ymryson corfforol (7)
- 10 Ymryson marchogaeth teirw (5)
- 11 Y --, y ferch farddonol (3)
- 12 Rhai o'r cyfansoddiadau cerddorol hiraf (9)
- 13 Asgwrn dwrn (6)
- 15 Enw loteri'r Eisteddfod Genedlaethol (6)
- 18 Y criw yn dychwelyd (2,2,5)
- 19 Gwrthod mynediad (3)
- 20 Mynd i le o'r neilltu i weld celfyddyd gain (5)
- 21 Mynd yn sigledig (7)
- 23 "Brenhines y telynau" o Faldwyn (5)
- 24 Safle asgwrn mwya'r corff (4)

I LAWR

- 2 Ceffyl sydd a'i fryd ar fod yn arweinydd (5)
- 3 Daliwr edau neu ffilm (3)
- 4 Canlyniad 9 Ar Draws (6)
- 5 Bloeddio'r tonau yn y gymanfa efallai (5,4)
- 6 Mwydro a malu awyr (7)
- 7 Ail wraig tad y plentyn (6)
- 8 Cyw y Welsh Black (2,2)
- 12 Hen ffordd Rufeinig yng Nghymru (4,5)
- 14 Fel 21 Ar Draws (7)
- 16 Bochau 11 Ar Draws sy'n dal yn farddonol (6)
- 17 Lliw ffres y maes (6)
- 18 Y tu mewn i ti (4)
- 19 Methu canfod yr ateb? Rhaid gwneud hyn i'r pen (5)
- 22 Y milgi cas a laddodd gwningen yn ôl y bardd o'r Rhos (3)

	1	2		3		4		5		6		
7												8
9								10				
11				12								
13		14					15					16
						17						
18										19		
20						21		22				
		23						24				

ATEBION CROESAIR IONAWR 2017

AR DRAWS 1 Cas, 3 Ffigys, 7 Mochras, 8 Tramwy, 9 Difrycheulyd, 11 Rwdan, 13 Luned, 15 Gwasgaredig, 17 Segura, 19 Edwino, 20 Llinyn, 21 Sudd

I LAWR 1 Clochdar, 2 Siryf, 3 Ffit, 4 Glaslyn, 5 Sownd, 6 Ystyfnig, 10 Eglurdeb/ Eglurder, 12 Diaddurn, 14 Digonedd, 15 Gweill, 16 Dewis, 18 Ann

Un camgymeriad a gafwyd y tro hwn sef 'Corris' yn lle'r ateb cywir 'Mochras' am ynys y cregyn.

Cafwyd atebion hollol gywir gan y canlynol: Doris Shaw, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gareth William Jones, Bow Street; Jean Hughes, Barbara Jones, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Adrian Poulton, Pentir; John a Meirwen Hughes, Abergele; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Ann Carran, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwilyn a Myra Evans, Niwbwrch; J.R. ac M.A. Jones, Karen a Tom Williams, Llanllechid. Da iawn pob un ohonoch.

Ond yr un ddaeth i'r brig y tro hwn am y wobr oedd cynnig Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4PF. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn 2 Mawrth, 2017 i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Atebion erbyn 2 Chwefror, 2017 i 'Croesair Ionawr'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Ysgol Llanllechid

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Anti Gillian a Dafydd Griffiths ar ddod yn hen nain a taid! Ganed merch fach i Liam a Lucy, a'i henw yw Elliw. Mwynhewch y magu!

Anfon cofion

Anfonwn ein cofion at ferch Ms Sian, Awen, sydd wedi bod mewn damwain car yn ddiweddar. 'Rydym mor falch o gael dweud ei bod yn gwella ar ôl y llawdrinaeth.

Disgo Santes Dwynwen

'Roedd calonnau coch i'w gweld ar bob cwr o'r neuadd ac 'roedd y gerddoriaeth yn diasbedain dros bob man yn ystod ein disgo Santes Dwynwen! Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfle i ddangos eu doniau i ddechrau, ac yna daeth disgyblion yr Adran Iau yn ôl i'r ysgol ar gyfer eu disgo hwy! Diolch i'r ddau Mr Jones am fod yn DJs a diolch arbennig i'r Cyfeillion am ein helpu. Hon oedd y weithgaredd gyntaf i'r gadeiryddes newydd, Mrs Angharad Llwyd Beech i ymhel â hi, ac aeth popeth yn ei flaen yn hollol ddidramgwydd. Diolchwn iddi ac i aelodau'r Pwyllgor am eu cymorth a'u cenfogaeth. Cofiwn hefyd am ein cyn-gadeiryddes Mrs Lowri Roberts ac am ei chyfraniad arbennig hithau, ers y cyfnod pan oedd Buddug yma efo ni yn ddisgybl. Pwy a all anghofio am gyfraniad Mrs Iona Robertson hefyd! Nid oes modd enwi pawb yn y fan hyn - ond yr un yw'r diolch i chi i gyd. Bu'r disgo yn llwyddiant ysgubol! Yn ddiau, caiff ei ail-adrodd yn fuan! (Priodol hefyd yw diolch i Anwen Jones a Ceri Isaac am eu gwaith di-flino hwythau yn trefnu'r Bore Coffi.) Braf cael dweud mai Ms Leanne ac Anti Wendy yw'r ysgrifenyddion newydd!

Dyddiadau i'ch Dyddiaduron

Cofiwch am ein Bingo Pasg a gynhelir ar Ebrill 5ed yn y Clwb Criced. Diolchir i'r clwb Criced am fod mor barod eu cymwynas. Cofiwch hefyd am ein Ras Moel Wnion ar Ebrill 29. Croeso cynnes i bawb!

Ymweliad dosbarth Mrs Tegid â bwyty Tsieiniadd Fu's yng Nghaernarfon

Fel rhan o waith y dosbarth ar 'Y byd rhyfeddol' ac i gyd-fynd gyda dathliad Blwyddyn Newydd Tsieiniaidd, aethpwyd 'am dro' i fwyty Fu's. Cafodd y disgyblion gyfle i weld y reis a'r cyw iar melys a chwerw yn cael ei goginio mewn wok chwilboeth! I ddilyn, cafwyd gwers ar sut i ddefnyddio chop sticks a chyfle i ddal pen y milwyr terracotta a dysgu am eu hanes.

Castell Caernarfon a Dolbadarn

Fel rhan o'n thema Chwedlau'r Ddraig,

cychwynodd y dosbarth Derbyn, ar fore digon llwm yr olwg, ar antur i Gaernarfon er mwyn cael syniad o sut oedd pobl yn byw mewn castell. Cafwyd cyfle i wyllo ffilm am freuddwyd Macsen Wledig a sut y bu i gaer gael ei sefydlu yng Nghaernarfon, cyn mynd i fusnesu ymhob twll a chornel! Roedd angen cryn egni wrth gerdded yr holl risiau troellog a mynd i lawr i ddyfnderoedd ambell selar! Cafwyd cinio yno, a chyfle i wisgo coron y brenin Edward y 1af, cyn symud ymlaen am Llanberis ac ymweld â chastell Dolbadarn. Roedd y plant wrth eu boddau yn clywed sut y bu i Llywelyn ein Llyw Olaf garcharu ei frawd Owain Goch yn y gorthwr am ugain mlynedd. Cafodd y plant ryddid i ymchwilio i weld lle oedd y neuadd a'r ddau dŵr arall oedd yn rhan o'r castell gwreiddiol, cyn cael tynnu eu lluniau ar risiau y gorthwr! Yr un fu taith disgyblion Mrs Marian Jones, wrth iddynt astudio Oes y Tywysogion mewn manylder.

Ymweliad Mr Deri Tomos â dosbarth Blwyddyn 1

Yn ddiweddar, fe fu disgyblion Ms Cranham a Ms Jones yn ffodus iawn o gyfarfod ymwelydd arbennig o'r enw Mr Deri Tomos i drafod Deinosoriaid, a daeth Mr Tomos â phob math o arteffactau ar gyfer cynnal sgwrs am ffosiliau gyda'r dosbarth! Uchelgeisiol iawn i blant mor ifanc, medde chi! Dim o gwbwl! Llwyddwyd i gyfareddu'r disgyblion drwy ddysgu llawer am sut mae ffosiliau yn cael eu creu cyn mynd ati i greu ffosiliau eu hunain! Hyfryd! Diolch i chi Mr Deri Tomos am fod yn ffrind mor dda i'r ysgol, ac am fod mor barod i'n helpu.

Mr Alun Pritchard a Lesotho

Braint oedd cael cwmni Mr Alun Pritchard yn nosbarthiadau Mr Huw Jones a Mr

Stephen Jones pan ddaeth i gyflwyno ei atgofion am ei gyfnod yn Lesotho. Yn 2003 aeth Mr Pritchard i Lesotho - sef y wlad fechan sydd wedi ei amgylchynu gan ei chymydog De Affrica. Mae Cymru wedi gefeillio gyda Lesotho, ac mae dolen arbennig rhwng y ddwy wlad yn dilyn y cyswllt cyntaf yn ôl ym 1985. Dangosodd lawer o ffotograffau o'i ymweliad ynghyd â nifer o arteffactau e.e. gwisg draddodiadol, het Basotho ac ysgub. 'Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando ar ei straeon a'i natur hyfryd o gyflwyno. Gwnaeth argraff fawr arnynt wrth rannu nifer o straeon e.e. pan soniodd am wraig y tŷ pridd a'r to gwellt oedd yn rhyfeddu fod dyn gwyn wedi aros yn ei chartref; gwraig oedd yn teimlo'n ansicr a oedd ei chartref yn ddigon da i'r ymwelydd o Gymru fach, a Mr Pritchard yn teimlo'n ddiymhongar yn ei chwmni wrth ryfeddu at ei chroeso twymgalon er ei hadnoddau prin. Diolch o galon Mr Pritchard am brynhawn arbennig ac am gael y cyfle i ddysgu cymaint am wlad mor ddiddorol.

Mr Eli Lichtenstein a'r Holocaust

Ar ddiwrnod coffa yr Holocaust daeth Mr Eli Lichtenstein i ddosbarth blwyddyn 6 i drafod hanes ei deulu yn dianc o orthrwm a chreulondeb y Natsiaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb, gyda'r plant wedi paratoi nifer o gwestiynau treiddgar i'w gofyn. Dysgodd y plant lawer wrth wrando ar ei atebion, gan gyflwyno eu barn hwythau ar y cyfnod erchyll hwn mewn hanes, yn ogystal â gwneud cymhariaeth gyda systemau llym apartheid yn Ne Affrica. Diolch i Mr Lichtenstein am fore mor ddiddorol, gan wneud i bawb sylweddoli mor greulon y gall dyn fod at ei gyd-ddyn. Dysgwyd gwersi





pwysig ynglŷn â'r angen i gyd-weithio a pharchu ein cyd-ddynion beth bynnag fo eu hîl a'u diwyllaint. Hefyd, cafwyd cyfnod yn trafod effaith y cyfnod ;cyfnod sy'n dangos yn glir beth yw canlyniad creulondeb, amharch a gormes un genedl yn erbyn cenhedloedd eraill.

Mrs Helen Holland a Môn ar Lwy
Er mwyn dysgu am entrepreneuriaeth, gwahoddwyd Mrs Helen Holland draw i'r ysgol i ddysgu'r disgyblion hŷn sut i sefydlu busnes. Bellach mae llwyddiant Môn ar Lwy ar lefel genedlaethol a rhyngwladol ac 'rydym yn Ysgol Llanllechid yn ymfalchio yn llwyddiant Mrs Holland a'i theulu, a hithau wrth gwrs yn wraig o Fethesda! Ar ddiwedd y cyflwyniad, rhoddodd Mrs Helen Holland rodd i Jess, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey. Diolch am eich caredigrwydd Mrs Holland, ac am gael cyfle i flasgu eich campweithiau!

Mrs Dilys Jones a'r ysgol a sefydlodd yn Ghana
Fel y gwelwch o ddarllen hanes blwyddyn 6 mae gogwydd rhyngwladol a daearyddol yn perthyn i'r thema y tymor hwn. Fe barahaodd y thema hwnnw pan ddaeth Mrs Dilys Jones, gwraig yn wreiddiol o Fethesda, a modryb i Mr Stephen Jones, sef athro blwyddyn 6, i siarad am ei phrofiadau yn byw yn Ghana, Gorllenwin Affrica. Tra'n byw ac yn gweithio yno sefydlodd Mrs Jones a'i gŵr, Mr Alec Jones ysgol i'r plant lleol gan nad oedd y fath adeilad na'r addysg yn bodoli ar eu cyfer. Bellach mae 750 o blant yn mynychu'r ysgol sydd wedi cael ei henwi ar ôl ei diweddar ŵr - Mr Alec Jones. Soniodd am fywyd yn Ghana a'r pwyslais ar ailgylchu er mwyn byw e.e. creu tegannau allan o boteli coffi a fflip fflops. Diolch i Mrs Jones am brynhawn mor arbennig - mae ein hedmygedd ni yn fawr tuag atoch.



BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng

* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 – 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

Gwefan: douglasarmsbethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau:
Chwefror
18 Boreol Weddi
25 Cymun Bendigaidd

Mawrth
5 Boreol Weddi
12 Cymun Bendigaidd
19 Boreol Weddi
Pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30.y.b.

Clwb Cant Ionawr
1. Eirwen Williams
2. Goronwy Roberts
3. Sarah Griffiths

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu’r diweddar Robert Hugh Roberts, 22, Ffordd Tanrhiw. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys y Gelli ddydd Llun, Ionawr 30, o dan ofal Y Parchedig Christina McCrea.

Te Crempog
Cynhelir y Te Crempog ddydd Mawrth, Chwefror 28, am 1.y.p.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw . Ganed merch fach, Alaw Madlen. i’w mab Bleddyn a’i bartner Angharad, a chwaer fach i Osian, Twm a Sion.

Profedigaeth

Mae amryw o drigolion y pentref wedi gorfod wynebu profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Ar Dachwedd 30 bu farw Myra Jones, Erw Faen, gweddw’r diweddar Jack, a mam Keith. Mae ein cydymdeimlad gyda Keith a’r teulu.
Daeth profedigaeth i ran Enid, Dafydd a’r merched, Cae’r Wern, ar Ragfyr 10, pan fu farw mam Enid, sef Eleanor Morris, Bigil, Rhos y Nant, Bethesda. Pob cydymdeimlad i chi fel teulu.
Bu farw Alwyn Thomas o’r Felinheli ar Ragfyr 30 ac anfonwn ein cofion at ei frawd a’i chwaer yng nghyfraith sef Gwynfor a Mona Thomas, Bro Derfel, Tregarth.
Ar Ionawr 21 bu farw Robert Hugh Roberts, 22 Ffordd Tanrhiw, ac yntau’n 80 mlwydd oed. Roedd yn briod gyda’r

diweddar Shirley ac yn dad i Muriel, John, Rodney, Dale a Wayne. Cydymdeimlwn gyda chwithau fel teulu.

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaethau am 5.00 oni nodir yn wahanol
Chwefror
19 Gwynfor Williams
26 Trefniant Lleol

Mawrth
5 Gwynfor Williams (Sacrament)
12 Richard O Jones
19 Idris Thomas
26 Glyn Owen

Gwellhad buan
Gwellhad buan i Noreen Jones, Bethesda, wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mwyty Friars ym Mangor, Nos Fercher, Mawrth 1. Am fwy o fanylion cysylltwch â’r ysgrifennydd sef Angharad Williams, (601544)

Yn yr Ysbyty
Anfonwn ein cofion at J. O Roberts, Allt Pen y Bryn sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Brysiwch wella Jack yw dymuniad pawb o’r aelodau yn Shiloh. Cofion at bawb arall o’r aelodau sydd ddim yn teimlo’n rhy dda a brysiwch wella.

Croeso fore Gwener
Mae drysau Shiloh ar agor bob bore Gwener o 10 o’r gloch hyd 12 o’r gloch. Dewch draw am banad a sgwrs ac fe gewch orig ddifyr. Hyd yma mae’r arbrawf yn mynd o nerth i nerth. Croeso i bawb o’r ardal i daro mewn.

Profedigaeth

Yn dawel yng nghartref ei ferch a’i fab yng nghyfraith Muriel ac Eric bu farw Robert Hugh Roberts “Robin” o 22 Tan Rhiw. Gwr y ddiweddar Shirley a thad annwyl Muriel, John, Rodney, Dale a Wayne, tad yng nghyfraith a thaid hoffus iawn a brawd i John, Babs, Ann a’r ddiweddar Beryl. Bydd yn golled fawr i’w deulu a thrigolion Tan Rhiw a Thregarth – ‘roedd yn gymydog a ffrind da ac yn gyfaill annwyl.
Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Llun Ionawr30ain yn Eglwys St Mair, Tregarth. Dymuna’r teulu ddiolch i’r trefnydd angladdau , Dylan Griffith, Penisarwaen a drefnodd fod Robin yn cael ei gludo o Eglwys St Mair i’r amlosgfa gan ddau geffyl gwedd urddasol yn ôl ei ddymuniad. Diolch i bawb.

Nain a Taid

Llongyfarchiadau i Angharad a Gerallt Williams ar ddod yn nain a thaid i ferch fach Alaw Madlen a aned i Bleddyn eu mhab ac Angharad ei bartner sydd yn byw yng Nghilfodan, Carneddi. Ganwyd Alaw ar y 26ain o Ionawr dim ond dau ddiwrnod cyn i’w hen nain sef Megan Williams, Gerlan ddathlu ei phenblwydd yn 97 oed. Mae Twm, Sion ac Osian wrth eu bodd hefo’u chwaer bach newydd. Llongyfarchiadau hefyd i Yncl Gethin a nain a thaid Caerfyrddin sef Mike a Bethan Griffiths.

Y diweddar Alwyn Thomas

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar Ragfyr 30, yn 89 mlwydd oed, bu farw Alwyn Thomas, Assheton house, Y Felinheli (Penyffriddoedd, Tregarth gynt). Dymuna Gwynfor, Mona a’r teulu ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli’u brawd, ac am y rhoddion er cof amdano tuag at Feddygfa’r Felinheli.

Cylch Meithrin
Tregarth

Rydym eisiau diolch i Dylan, Siop Bells, Bethesda am osod ein carped newydd ac am roi rhodd o £10 tuag ato.

Trip Noddedig
Buom am dro ar hyd Lôn LasOgwen fel rhan o’n taith gerdded noddedig. Codwyd dros £150 yn gyfangwbl. Hoffwn ddiolch i’r rhieni a’r plant am ein help i godi arian i’r Cylch. Bydd yn cael ei ddefnyddio tuag at gyfrifiadur newydd.



Hiwmor yr Ardal

Cyn y pedwar a’r pumdegau dim ond dwy ffordd gyfreithiol oedd o roi arian ar rasmus ceffylau, sef:- drwy’r post neu drwy ffonio’r bwci. O ganlyniad i hynny, dim ond pobl gyfoethog oedd yn gallu rhoi arian ar y rasmus. Ta waeth, bron ym mhob pentref chwarel yr oedd Rhedwr Bwci- dyn a oedd yn fodlon derbyn betiau dros y bwci - er bod hyn yn anghyfreithlon!!

Ym Methesda, y crydd yn Stryd John oedd y Rhedwr Bwci. Byddai’n derbyn betiau ac yn eu hanfon ymlaen i Bob Jones y Bwci ym Mangor ar y bws lleol.

Un person oedd yn rhoi arian yn ddyddiol ar y ceffylau oedd perchennog siop yn y pentre. Jane oedd ei henw. Bob bore byddai Jane yn mynd at y crydd i roi ei bet. O dan ei chesail bob amser ‘roedd esgid - Jane yn meddwl bod yr esgid yn cuddio gwir bwrpas ei siwrnai at y crydd! Ond cyfrinach agored oedd hyn yn y pentref, a bron pawb yn gwybod y gwir! Ei ffug enw y tu ôl i’w chefn oedd “Jane Hen Esgid”!

‘Roedd Jane yn aelod o gymdeithas a oedd yn cyfarfod yn y capel gyda’r nos bob wythnos. Un o’r digwyddiadau yn y gymdeithas oedd bod pawb yn eu tro yn darn o bapur allan o het ym mys llawer o bapurau eraill. Testun gwahanol oedd ar bob papur fel arfer, ond pan ddaeth noson Jane i gymryd rhan, yn ddarwybod iddi ac o ran hwyl ‘roedd pob papur gyda’r un testun, sef “Y Grand National”! Cymrodd Jane ei phapur allan o’r het: “O”, meddai - “Y Grand National; ychydig ydw i yn wybod am hyn ...”, ond aeth ymlaen i siarad fel arbenigwr ar y testun. Bu curo dwylo mawr a chwerthin ar ddiwedd ei sgwrs gan bawb a oedd yn bresennol.

Dyma enghraifft o hiwmor y Chwarel. Collodd fy hen daid, Huw (Huw cyn) lygad mewn ffrwydriad yn y chwarel. Pan ddychwelodd i’w waith ar ôl gwella dyma un o’i gyfeillion yn gofyn - “Huw cyn, beth fuaset yn wneud os fuaset ti yn colli dy lygad arall?” Ei ateb oedd “Cael gwaith yn trwsio watsys”.

David Nicholas

(Diolch i Mr Nicholas am y rhain, ac am ei rodd hael o £30.00 i’r Llais [Gol.]

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Triniaeth

Yr oedd yn braf clywed bod efeilliaid 16 Cae Gwigin, wedi cael croeso mawr gan eu ffrindiau oll yn Ysgol Tregarth, yn dilyn triniaeth Logan yn yr Unol Daleithiau. Dalia ati i wella, Logan!

Ymadael

Dymuniadau gorau i Amanda a’r teulu sydd wedi symud o 11 Dolhelig i’w cartref newydd ym Mangor.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau cynhesaf i Val Unsted, 3 Dolhelig, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yr wythnos o’r blaen.

Panto

Yr oedd hi’n braf iawn gweld Elen, 36 Bro Emrys, yn chwarae rhan flaenllaw ym Mhantomeim ‘Bali Wali Honco’ yn Neuadd Ogwen ar nos Wener 20 Ionawr a phnawn Sadwrn 21 Ionawr.

Adref o Efrog Newydd.

Croeso adref i Rhiannon, Tai Newyddion, wedi iddi fod efo Côr Glanaethwy yn canu yn Neuadd Carnegie, Efrog Newydd.

Eglwys St. Cross

Ar ddiwedd mis Ionawr, bu farw Mrs. Beryl Roberts, gynt o fferm Tŷ’n Hendre, yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Yr oedd newydd droi’n ganmlwydd oed ar 5 Ionawr.

Yr oedd teulu Tŷ’n Hendre yn aelodau ffyddlon, ac yno y cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Gwener, 3ydd o Chwefror, am ddau o’r gloch. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu colled.

Gyda thristwch, daeth y newydd am farwolaeth Mrs. Phyllis Davies fore Llun, 30 Ionawr, yn Hosbis Dewi Sant, Llandudno; colled enbyd i’w theulu, ffrindiau ac i holl aelodau Eglwys St. Cross. Gweithiodd Phyllis yn ddiwyd ar hyd y blynyddoedd i godi arian er budd yr Eglwys. Byddai hefyd yn mwynhau y gwahanol weithgareddau yn yr Ysgoldy. Cawn gyfle i ddweud mwy yn y rhifyn nesaf o’r ‘Llais’.

Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys at y teulu yn eu colled fawr.

Capel Bethlehem

Oedfaon

- Chwefror 19: Canon Idris Tomos.
- Chwefror 26: Y Gweinidog.
- Mawrth 05: Parchg. Megan Williams, Porthaethwy.
- Mawrth 12: Y Gweinidog.
- Mawrth 19: Mr. Dafydd Iwan.

Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Taid a Nain

Llongyfarchwyd Wil a Gwyneth Roberts ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf drwy enedigaeth Enfys fach i Hafwen a Gethin ym Methesda.

Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Gogledd Arfon Bethlehem oedd yn croesawu’r Cwrdd Chwarter ar 25 Ionawr, a’r farn gyffredinol oedd bod y cyfarfod wedi bod yn llwyddiannus, a’r croeso ym Methlehem wedi bod yn gartrefol a chynnes. Hyfryd iawn oedd bod yn dystion i’n gweinidog, y Parchedig John Pritchard, yn derbyn llywyddiaeth y Cyfundeb am y ddwy flynedd nesaf. Yn y llun gwelir y Parchedig Gareth Edwards yn trosglwyddo Beibl y Llywydd iddo.





Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamsHY@parliament.uk

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk



Côr y Penrhyn

Comisiynu Darn Newydd
Mae Côr Meibion y Penrhyn wedi profi unwaith yn rhagor pa mor flaengar ydyw ym myd cerddoriaeth Gymreig gyfoes oherwydd mae wedi comisiynu darn newydd, er cof y tro hwn am y diweddar Tom Morgan.

Rai blynyddoedd yn ôl bellach comisiynodd y côr ddarn o'r enw “**Y Bryniau Melynion**” gyda'r geiriau gan y Prifardd Ieuan Wyn a'r gerddoriaeth gan Gareth Glynne. Darn er cof am y diweddar Harri Roberts a fu'n llywydd y côr am flynyddoedd oedd hwnnw, a bellach mae'r darn ar raglen sawl côr meibion drwy Gymru gyfan ac yn cael ei gydnabod fel darn clasurol a safonol sy'n cynnig her i unrhyw gôr.

Tiroedd Ein Cof
Yn achos y darn newydd fe dderbyniodd y côr nawdd gwerth punt am bunt gan Tŷ Cerdd i gomisiynu darn o gerddoriaeth i'w berfformio gan gôr meibion a band pres ond bydd y cyfansoddwr hefyd yn trefnu'r darn fel y gellir ei berfformio gyda piano pe dymunir.

Awdur y geiriau y tro hwn eto yw Ieuan Wyn a theitl ei soned yw “**Tiroedd ein cof**” ond bydd y gerddoriaeth yn waith Dr Owain Llwyd, darlithydd yn Adran Gerdd y coleg ym Mangor a chyfansoddwr ifanc cyffrous a faged yng Nglyndyfrdwy rhwng Corwen a Llangollen. Mae Owain wedi cyfansoddi darnau ar gyfer ffilm a theledu ac mae'n cael ei gyfrif ymhlith y talentau disgleiriaf a ymddangosodd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Er cof am Tom
Er nad yw'r soned gan Ieuan Wyn yn sôn am Tom yn uniongyrchol, gobeithir y bydd y gwaith yn goffâd teilwng i un a gawsai fwynhad mawr o ganu corawl ac a gysegrodd fwyafri ei oriau hamdden i'r côr a'i weithgareddau.

Testun balchder i'r côr yw cael bod yn gyfrwng i greu cerddoriaeth a chaneuon newydd i Gymru ac i ganu corawl yn gyffredinol a hyderwn y byddwn yn perfformio'r darn newydd yn fuan - efallai yn y cyngerdd gyda Band Black Dyke yn Venue Cymru ar 6 Mehefin eleni.

Cyngerdd gyda Band Black Dyke
Gan y bydd mynd mawr ar y tocynnau i'r cyngerdd hwn fel y bu i'r cyngerdd tebyg ddwy flynedd yn ôl, byddwn yn cynnig cyfle i chi brynu eich tocynnau gwerth £17 neu £20 yn uniongyrchol gan aelodau'r côr, yn hytrach na mynd drwy'r swyddfa docynnau yn Llandudno lle mae'n rhaid talu ffi bwcio ar ben pris y tocyn.

Bydd Mr Walter Williams, Arennig, Erw Las, Bethesda, Ffôn 01248 601167 neu e-bost waltermenai@yahoo.co.uk yn falch o'ch helpu gyda'ch ymholiadau am docynnau.

Noson Dwynwen
Ar nos Sadwrn, 28 Ionawr, trefnodd aelodau Llanfairfechan noson yng nghwmni John ac Alun yn Neuadd y Dref, Llanfairfechan i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru.

Arweiniwyd y noson gan Eifion Davies (Spud) o Fethesda yn ei ddull dihafal ei hun a chafwyd storïau a sgets ganddo ef a Derek (TV) Griffiths. Cymerodd y côr ran yn y noson hefyd a derbyniwyd bonllfau o gymeradwyaeth gan y gynulleidfa niferus yn dilyn cyflwyniadau nerthol a bywiog.

Meddai Wyn Roberts o Lanfair, “ Mae pobl y dref hon bob amser yn mwynhau gwrandao ar Gôr y Penrhyn ac fel aelod o'r côr gwych hwn fy hun mae'n rhoi gwefr arbennig i mi gael bod yn rhan o'r

trefniadau i ddod â'r hogiau a'u partneriaid yma.”

Roedd Mair Davies a'i ffrind Eleri Thomas wedi dod i'r noson hefyd a dywedodd y ddwy, “Does dim dwywaith amdani mai Côr y Penrhyn sydd ar y blaen o ran cynnig noson o adloniant amrywiol a hwyliog. Diolch i chi hogia'.”

Roedd caneuon John ac Alun yn gyfarwydd i lawer ac ymunodd pawb i ganu'r gytgan efo'r ddau mewn sawl cân.

Noson i'w thrysori yn wir!

Cyflwyno baton arian

Mewn ymarfer o'r Côr nos Lun, 16 Ionawr, cyflwynodd Wynn Williams, cyn-aelod yn y 50au a'r 60au, faton a roddwyd iddo yn rhodd gan gyn-arweinydd o'r côr, sef y diweddar W. Ffrancon Thomas. Enillodd Ffrancon y baton am gael ei ddyfarnu yr arweinydd gorau yn un o Eisteddfodau Butlins yn y 60au. Credir mai'r beirniad oedd Kenneth Roberton, mab Syr Hugh Roberton, arweinydd côr enwog y “Glasgow Orpheus”. Bryn Evans, cadeirydd y côr (chwith) a'r arweinydd, Owain Arwel ar y dde, yn derbyn y baton gan Wynn Williams. (Llun: D. Alun Davies)



10 mlynedd o wasanaeth fel cyfeilydd

Fran Davies yn derbyn blodau gan yr aelodau ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth fel cyfeilydd y côr. Yn y llun gwelir o'r chwith i'r dde, Maldwyn Pritchard, aelod o'r Ail Fas, Fran Davies, y cyfeilydd, Bryn Evans, cadeirydd y côr ac Owain Arwel yr arweinydd.

(Llun: D. Alun Davies)



Y Côr yn codi arian i Ambiwylans Awyr Cymru

Ychydig cyn y Nadolig, bu nifer o aelodau'r côr yn canu carolau y tu allan i Storfa Tesco ym Mangor a llwyddwyd i godi £300 tuag at gynnal Ambiwylans Awyr Cymru. Mae hwn yn ychwanegol at yr arian sy'n cael ei gyfrannu'n flynyddol gan y côr i achosion da

gan gynnwys y gwasanaeth Ambiwylans Awyr. Meddai Dafydd Jones Morris, o Fangor, is-gadeirydd Côr y Penrhyn, ac un o ymddiriedolwyr y Gwasanaeth Ambiwylans Awyr, “Mae'r gwasanaeth hwn yn dibynnu'n llwyr ar elusen a rhoddion gan gymdeithasau ac unigolion ledled Cymru ac nid yw'n derbyn ceiniog gan y llywodraeth na chan unrhyw gorff cyhoeddus arall.”

Ychwanegodd Dafydd, “mae'n bwysig ein bod yn parhau i gynnal y gwasanaeth fel un annibynnol oherwydd pe byddai'n cael ei drosglwyddo i ofal y llywodraeth ganol neu leol byddai'n sicr o orfod wynebu toriadau'n hwyr neu'n hwyrach.”

Aelod o'r Côr yn cyflwyno Siec am £400 i'r Ambiwylans Awyr

(Llun o Derek Griffiths: Derfel Roberts)

Ynghanol Mis Ionawr, dathlodd Derek Griffiths, (Derek TV) Rhos y Coed, Bethesda, sy'n aelod o adran yr ail denoriaid yn y côr, ei ben-blwydd yn 70 oed ond yn lle derbyn anrhegion penderfynodd Derek ofyn i'w deulu a'i gyfeillion gyfrannu rhoddion i'r Ambiwylans Awyr. Trwy wneud hynny llwyddwyd i godi £400 at y gwasanaeth gwerthfawr hwnnw. Felly, drwy'r ymdrech yn Tesco a phen-blwydd Derek fe welir bod aelodau'r côr wedi cyfrannu dros £700 i gyd.

Pen-blwydd hapus Derek a diolch am gefnogi achos mor deilwng.



www.venuecymru.co.uk

Côr y Penrhyn
Black Dyke Band
Venue Cymru, Llandudno
17 - 6 - 2017

01492 872000

Ysgol Dyffryn Ogwen

Nofio
Yng nghystadlaethau gala nofio cenedlaethol yr Urdd, daeth Beca Jones a Catherine Roberts yn gyntaf yn eu cystadlaethau (Beca yn nofio ar ei chefn a Catherine y dull pili-pala) a'r tîm ras gyfnewid yn drydydd gydag Awel Griffiths a Boe Celyn Jones yn ymuno gyda Beca a Catherine Roberts. Ardderchog genod! Mae'r bedair yma yn nofwyr o fri!



Diwrnod Cofio'r Holocaust – Ionawr 27
Cynhaliwyd gwasanaeth i'r ysgol gyfan i gofio am y 6 miliwn o bobl a gollodd eu bywydau yn yr Holocaust. Ionawr 27ain 1945 oedd y diwrnod y cyrhaeddodd milwyr Rwsia wersyll Auschwitz a chael sioc enfawr wrth weld yr hyn oedd yn eu hwynebu. Erbyn hyn, mae Ionawr 27ain yn ddiwrnod i gofio am yr erchyllterau a ddigwyddodd yn Auschwitz a gwersylloedd tebyg, ac yn arbennig i gofio am y miliynau o Iddewon a gollodd eu bywydau. Bu Elen Wyn ac Owain Morgan o flwyddyn 12 hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaeth cyhoeddus a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd ar Ionawr 27ain i gofio'r Holocaust.

Gwasanaeth Plygain
Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cadw'r traddodiad canu plygain yn fyw mewn gwasanaeth yn festri Capel Jerusalem ar nos Sul, Ionawr 22. Cyfrannodd Elen, Beca, Rhiannon a Manon i'r gwasanaeth drwy ganu dwy gân plygain, gyda Mr Hefin Evans, Pennaeth yr Adran Gerdd, yn eu cynorthwyo.

Ymweliad Jenna Downing
Daeth Jenna Downing, pencampwraig y byd mewn sglefrio llinell i ymweld â'r



Cyngor Chwaraeon fel rhan o gynllun 'Sky Sport' – Living for Sports'. Bu Jenna yn mentora'r Cyngor i fod yn arweinwyr chwaraeon i gynnal a threfnu sesiynau chwaraeon i ddisgyblion yr ysgol ac aelodau ieuengaf y gymuned. Fel rhan o'r prosiect bydd yn rhaid i'r disgyblion drefnu gŵyl o'u dewis yn yr wythnosau nesaf cyn i Jenna ddychwelyd am ddiwrnod cyfan. Cafwyd prynhawn llawn hwyl yn gwneud gweithgareddau gwaith tîm.

Adran Saesneg - 500 Gair!
Mae adran Saesneg YDO yn gweithio'n galed ar gystadleuaeth y BBC: 'Stori fer 500 Gair'. Mae holl ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn brysur yn creu storïau difyr ar gyfer y gystadleuaeth genedlaethol hon. Felly, pob lwc i bawb gyda'u campweithiau!

Canlyniadau rygbi
Dan 15
Ysgol Dyffryn Ogwen 51-0 Ysgol Caergybi
Ceisiau wedi eu rhannu rhwng - Dafydd Williams, Cai Williams, Rhys Puw, Aron Bullock, Ioan Gray, Caio Hughes, ac Osian Hughes

Dan 13
Ysgol Dyffryn Ogwen 51-0 Ysgol Caergybi
Ysgol Bodedern 5 - 49 Ysgol Dyffryn Ogwen
Ceisiau gan Daniel Hughes x 4, Noa Hughes, Huw Davies, Cai Davies, Tomos Hughes a Joseph Bunford.

Rygbi Gogledd Cymru
Tîm bechgyn dan 15
Bu Dafydd Williams, Caio Hughes a

Ioan Gray yn cynrychioli Tîm Gorllewin RGC ddiwedd Ionawr yn erbyn Ysgolion Llanelli.

Tîm genethod dan 18
Ar ddydd Sul Ionawr 29, roedd 6 o ferched o Dyffryn Ogwen, sef Lowri Davies, Sophie Davies, Manon Hughes, Elin Owen, Cadi Rhys ac Efa Williams yn chwarae gyda thîm RGC (Rygbi Gogledd Cymru) dan 18 mewn gêm yn erbyn Gleision Caerdydd - gêm galed iawn gan mai un gêm yn unig ychydig o wythnosau yn ôl yn erbyn West Park yn Lerpwl oedd y tîm wedi'i chwarae. Y sgôr terfynol oedd 0-20 i Gleision Caerdydd oherwydd bod eu sgiliau wrth amddiffyn eu llinell gais yn gryf. Mae mwy o gemau yn dod yn fuan felly bydd cyfle i weithio ar rai agweddau er mwyn creu cyfleoedd i sgorio. Gobeithioy bydd timau'r genod yn Ysgol Dyffryn Ogwen a Chlwb Rygbi Bethesda yn mynd o nerth i nerth ac efallai y daw cyfle i un neu ddwy o'r genod i chwarae i Gymru cyn bo hir.

Pêl droed
Mae bechgyn Blwyddyn 7 ac 8 wedi cyrraedd y rownd cyn-derfynol yn nghystadleuaeth pêl droed 5 bob ochr yr Urdd, da iawn chi!

Traws Gwlad
Bydd y pedwar canlynol yn cynrychioli Ysgolion Arfon yn y rownd nesaf yn Nolgellau.
Blwyddyn 7
Iestyn Marlow – zail
Gethin Jones – 7fed
Gwenlli Sanderson – 8fed
Blwyddyn 8
Boe Celyn – 6ed yn ras dan 14.

Ysgol Bodfeurig

Radio Ysgol

Mae'r plant wedi mwynhau bod yn sêr radio yn ddiweddar ar Cymru FM. Mae Mr Walton wedi bod yn arwain sesiynau radio yn cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg newydd i'r plant wrth iddynt ymarfer eu llafaredd. Mae cyfle i wrando ar gynnyrch y plant ac eraill o'r gorffennol ar wefan www.cymru.fm a chlicio 'gwrando eto'.

Tim Achub Mynydd Dyffryn Ogwen

Y tymor yma mae dosbarth Tryfan yn edrych ar thema 'Ardal Trychineb'. I ddysgu mwy am ardaloedd sydd wedi wynebu trychinebau naturiol fe wahoddwyd aelodau o dîm achub mynydd Dyffryn Ogwen. Mae gan Tim a Brian brofiadau lu o helpu mewn trychinebau megis llifogydd ac eira mawr. 'Roedd yn brofiad gwerth chweil

cael gwrando ar eu hanes yn helpu pobl mewn argyfwng yn ogystal â gweld yr offer y maent yn ei ddefnyddio. 'Rydym yn ffodus iawn i gael pobl fel Tim a Brian sy'n gwirfoddoli i helpu eraill. Diolch o galon am eich gwaith ac am roi o'ch amser i'r ysgol.

Prosiect Cwtch

Mae Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth wedi bod yn ffodus iawn i gael grant drwy Gyngor y Celfyddydau sy'n ein galluogi i gydweithio gydag artistiaid yn ystod y tymor yma. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau, wrth i ni ddysgu am ddreigiau gyda chyswllt gyda'r flwyddyn newydd Tseiniadd. Yn dilyn gweithdai gwych gyda Colin Daimond, Ed Holden a Pete Powell fe berfformiodd plant yr ysgol o flaen eu rhieni gan ddefnyddio draig Tseiniadd enfawr!

Bydd y prosiect nawr yn symud ymlaen i weld y plant yn creu draig eu hunain, sef Cwtch. Bydd Cwtch yna'n gallu teithio i ddysgu am wledydd eraill ac i addysgu'r plant yno am ein rhan bach ni o Gymru.

Ysgolion Iach Gwynedd

Unwaith yn rhagor mae'r ysgol wedi profi llwyddiant trwy gynllun Ysgolion Iach. Mae'r cynllun cenedlaethol yn edrych ar nifer o agweddau o fywyd ysgol. Eleni 'roeddym yn edrych yn benodol ar yr amgylchedd ac ar ddiogelwch. Yn dilyn asesiad fe lwyddodd yr ysgol i ennill Cam 5 yn y cynllun! Y gamp nesaf fydd Cam 6 - sef gwobr ansawdd Cenedlaethol.

Nodyn i'r dyddiadur...

Bydd yr ysgol yn cynnal prynhawn Cymreig o ganu, adrodd a dawnsio yn Neuadd Goffa Mynydd Llandegai am 2 o'r gloch ar Fawrth y 1af. Pris tocyn fydd £3 a bydd hyn yn cynnwys paned a chacen - mae croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni.



Ysgol Llandygai

Cangen yr Urdd

Mae clwb yr Urdd wedi ail ddechrau ar ôl cyfnod y Nadolig. 'Rydym wrthi'n ymarfer at Eisteddfod yr Urdd Cylch Bangor/Ogwen. Digon o gerddoriaeth i'w glywed felly ar hyd y rhodfeydd.

Ymweliadau Addysgol

Bu Dosbarthiadau Enfys a Hedd yn Storiol yn ddiweddar yn dysgu am hen arferion golchi a glanhau. Cawsant chwarae rôl yng

nghwmni Leusa Mererid, gan sgwrio'r llawr, golchi dillad a gwneud y lle tân yn barod. Dyma ynweliad hynod werthfawr fel sail i weithgareddau'r dosbarthiadau yn ystod y cyfnod sy'n dilyn. Clybiau ar ôl Ysgol Mae gweinyddesau yr ysgol yn rhedeg clybiau ar ôl ysgol bob Nos Fawrth. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i arlunio, darllen a hefyd gweithio gyda thechnoleg yn ystod y sesiynau.

Chwaraeon

PÊL-DROED

Canlyniadau Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai

- Ionawr 7** - Bae Cemaes 2. M. Llandygai 3
Goliau. Steve Tindall, Dylan Price a Dafydd Evans
21 Ionawr - Clwb Peldroed Llanerchymedd 3. M.Llandygai 4
Goliau David Jones(2) Dafydd Evans ac Alwyn Roberts
28 Ionawr - Blaenau Ffestiniog 5. M. Llandygai 2
Goliau David Jones. (2)

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Ysgol Tregarth

Gwasanaeth Tseiniaidd

Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn a llawn bwrllwm fore Gwener 27 o Ionawr. Daeth rhieni, staff a phlant yr ysgol i neuadd yr ysgol i fwynhau gwasanaeth lliwgar a chyffrous dosbarth Tryfan a Llywelyn. Yn ystod yr wythnos daeth Colin Daimond, Ed Holden a Pete i weithio gyda'r plant i greu dawns y ddraig a dawns y llew i ddathlu Blwyddyn Newydd Tseiniaidd. Bydd Colin, Ed a Pete yn parhau i weithio gyda dosbarth Tryfan yn ystod y tymor, ac 'rydym yn edrych ymlaen i weld beth ddaw nesaf.

Croeso

Croeso mawr i Miss Lorna Smith, myfyrwraig o'r Brifysgol, sydd wedi ymuno â ni yn nosbarth Llywelyn. Bydd Miss Smith gyda ni am yr hanner tymor yma.

PC Meirion Williams

Cawsom ymweliad gan PC Meirion Williams i addysgu plant y Cyfnod Sylfaen am yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn yr ysgol, adref ac yn y gymuned. Mae ganddo ffordd arbennig o gyflwyno'i neges, ac mae'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Bydd yn ymweld â'r ysgol eto yn ystod y tymor.

Ardal tu allan y Cyfnod Sylfaen

Os ydych wedi mynd heibio'r ysgol yn ddiweddar mae'n siwr eich bod wedi sylwi ar y newidiadau cyffrous i flaen yr ysgol. Dyma ardal allanol y Cyfnod Sylfaen lle mae'r disgyblion yn mwynhau datblygu sgiliau gwahanol ar raddfa fawr, allan yn yr awyr agored ac ym mhob tywydd gan fod to ar ran o'r ardal. Mae pawb wedi



gwirioni gyda'r datblygiad, yn enwedig y llwyfan! Byddwch yn barod i glywed rhai o berfformwyr y dyfodol yn ymarfer eu crefft!

Ynni Ogwen

Diolch yn fawr i Beth o Ynni Ogwen a ddaeth i'r ysgol yr wythnos diwethaf i drafod y prosiect efo dosbarth Ogwen. 'Roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu am yr ynni gwyrdd hwn sy'n cael ei gynhyrchu yn lleol ar gyfer pobl leol yn ogystal â'r buddsoddiad a ddaw ohono i bentref Bethesda.

Pêl-rwyd

Bu tîm pêl-rwyd Dosbarth Ogwen yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd



yr Urdd yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r plant gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac 'roedd yn brofiad gwerth chweil iddynt. Gweithiodd y plant yn arbennig o dda fel tîm ac 'roeddynt i gyd yn falch o gael cynrychioli'r ysgol a'r ysgol hefyd yn falch iawn ohonyn nhw. Da iawn chi!

Ymweliad Addysgol Mynydd Gwefru

Thema dosbarth Ogwen yr hanner tymor yma yw Ynni, ac fel rhan o'r gwaith diddorol yma cafodd y dosbarth ymweld â'r Mynydd Gwefru yn Llanberis. Cafodd y disgyblion wyluo fideo ffeithiol am drydan a dysgu sut mae ynni hydro yn cael ei greu yno, cyn mynd ar daith tanddaearol wefreiddiol.



Ysgol Abercaseg

Bysedd Gwyrdd

Er mwyn ceisio arbed arian a thrydan mae grŵp Bysedd Gwyrdd am i bawb yn yr ysgol gofio diffodd goleuadau di-angen. Mae'r grŵp wedi cynnal cystadleuaeth gwneud poster i fydd yn atgoffa pawb i wneud hyn. Bydd y poster i buddugol o bob dosbarth yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol.

Clybiau'r Urdd

Mae plant yr ysgol yn brysur bob nosweithiau Llun a Mercher yn creu gwaith celf er mwyn cystadlu yn yr Urdd.

Mae'r clybiau'n gyfle da hefyd i blant o wahanol flynyddoedd gymysgu a chyd-weithio.

Nofio

Mae plant Blwyddyn 2 wedi dechrau gwersi nofio am y tymor. Mae pawb yn mwynhau teithio ar y bws i Fangor.

Prynhawn Agored

Roedd hi'n braf iawn croesawu rhieni a'r plant fydd yn cychwyn yn yr ysgol fis Medi nesaf. Cawsant flas ar weithgareddau'r dosbarth Meithrin a chyfle i gyfarfod staff yr ysgol.

